
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# HEINTIAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â GOFAL IECHYD

## Strategaeth ar gyfer Lleoliadau Gofal Iechyd Cymunedol yng Nghymru



G/116/07-08
ISBN 978 0 7504 4279 4

Hydref
CMK-22-02-188

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2007

# Cyflwyniad

Mae heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HGGI) yn parhau i achosi afiachusrwydd sylweddol i gleifion a chost sylweddol i'r gwasanaeth iechyd. Cafodd 'Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd - Strategaeth ar gyfer Ysbytai yng Nghymru' ei lansio ym mis Medi 2004 (http://new.wales.gov.uk/topics/health/protection/communicable-disease/healthcare-associated/?lang=cy). Dylai'r egwyddorion arweiniol a'r amcanion strategol fod yn gymwys mewn unrhyw leoliad gofal iechyd, er bod amrywiaeth o heriau unigryw ynghlwm wrth leoliadau cymunedol.

Mae'r amrywiaeth o sefydliadau[1] sy'n comisiynu a darparu gofal iechyd yn y gymuned yn cael ei adlewyrchu hefyd yn yr amrywiaeth o ddarpariaeth ar gyfer rheoli heintiau. Mae ymddiriedolaethau ysbytai wedi ffurfio timau rheoli heintiau a phwyllgorau rheoli heintiau ers llawer blwyddyn. Cynhaliwyd archwiliad o weithgaredd rheoli heintiau o fewn lleoliadau cymunedol ar ddechrau'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth hon (gweler atodiad A). Fe ddatgelodd hyn amrywiadau sylweddol trwy Gymru yn y ddarpariaeth o adnoddau ar gyfer atal a rheoli heintiau. Ar hyn o bryd ychydig o wybodaeth hygyrch sydd ar gael ynghylch heintiau a gysylltir â gofal iechyd mewn lleoliadau cymunedol.

Mae'r strategaeth felly wedi cael ei datblygu gyda'r nod o amlygu arferion gorau ar gyfer rheoli heintiau. Fe fydd hi'n gyfrifoldeb ar **bob** sefydliad yn y gymuned i ddatblygu polisïau mewn ymateb i'r strategaeth hon er mwyn bodloni gofynion eu lleoliad.

Fel gyda'r strategaeth ysbytai'rhaid i'r **holl** staff sy'n darparu gofal mewn lleoliadau cymunedol (gan gynnwys cartrefi'r cleifion) fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i weithredu arfer gorau fel sy'n briodol i'w lleoliad i rwystro a rheoli haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Fe fydd gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol weithio gyda sefydliadau i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a bod ganddynt yr adnoddau a'r cyfleusterau priodol ar eu cyfer er mwyn gweithredu'r strategaeth hon.

Fe fydd angen i'r holl staff weithredu'r safonau priodol fel y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon. Fe fydd Safonau Gofal Iechyd Cymru yn darparu sail gadarn y gall sefydliadau adeiladu arni a chyflawni'r disgwyliadau newydd a mwy heriol o ran gofal cleifion fel a bennwyd yn strategaeth 10-mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cynllun Oes'. http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-page.cfm?pid=12084&orgid=452

Dylid darllen y Strategaeth hon hefyd ar y cyd â'r Fframwaith Gwasanaethau Cymunedol a gyhoeddwyd yn gynharach eleni.
http://new.wales.gov.uk/topics/health/publications/health_social_care_strategies/communityservicesframework?lang=cy

[1] Sefydliadau - o fewn y strategaeth, mae'r term hwn wedi'i ddewis i adlewyrchu amrywiaeth y darparwyr gofal iechyd o fewn y gymuned. Mae'n cynnwys Byrddau Iechyd Lleol, Meddygfeydd a Deintyddfeydd Cyffredinol (grŵp ac unigol), Cartrefi Nyrsio, Cartrefi Preswyl, Cyfleusterau Iechyd Meddwl, Cyfleusterau Anabledd Dysgu a Chlinigau Iechyd Preifat.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i weithio gyda sefydliadau o fewn y sectorau preifat, gwirfoddol a gwasanaethau cymdeithasol ar aliniad safonau gofynnol. Dylai'r amcanion strategol a safonau sy'n cael eu harddel yn y ddogfen hon gael eu darllen o fewn y cyd-destun hwn.

## Strwythur y ddogfen:

Anelir y ddogfen at bawb o'r staff gofal iechyd sy'n darparu gofal mewn lleoliad cymunedol. Dylai'r ddogfen gael ei hystyried hefyd gan staff y Gwasanaeth Iechyd ac Awdurdodau Lleol wrth gomisiynu gofal preifat. Dylai gofal preifat (mewn lleoliad cymunedol) hefyd fod yn symud tuag at y safonau hyn.

Mae'r strwythur mewn tair rhan.

- Mae Rhan Un yn cyflwyno amlinelliad o'r amcanion strategol ac yn cynnwys cysylltiadau ag adrannau perthnasol a gynhwysir ymhellach ymlaen yn y ddogfen.
- Trosolwg manwl yw Rhan Dau sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth ategol sy'n sylfaen i'r strategaeth gyfan. Mae wedi ei rhannu'n wyth adran gyda phob un yn darparu'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer yr amcanion strategol.
- Crynodeb ar ffurf tabl yw Rhan 3 sy'n galluogi sefydliadau i gyfeirio'n hawdd at y camau gweithredu allweddol sy'n ofynnol gan y strategaeth hon.

# Cynnwys


## Rhan un

| | | |
|---|---|---|
| | Yr Amcanion Strategol | 1.1 |
| | Sut y cyflawnir yr Amcanion Strategol hyn | 1.1 |

## Rhan dau

| | | |
|---|---|---|
| **Pennod 1** | Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymunedol: Trosolwg | 2.1 |
| **Pennod 2** | Seilwaith a Threfniadaeth | 2.3 |
| **Pennod 3** | Hyfforddiant ac Addysg | 2.7 |
| **Pennod 4** | Archwilio ac Arolygu | 2.9 |
| **Pennod 5** | Ymyriadau a Datblygu Dangosyddion Perfformiad | 2.11 |
| **Pennod 6** | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 2.12 |
| **Pennod 7** | Iechyd Galwedigaethol | 2.13 |
| **Pennod 8** | Safonau Cenedlaethol | 2.14 |

## Rhan tri

| | | |
|---|---|---|
| | Tablau Fframwaith | 3.1 |

## Rhan pedwar

| | | |
|---|---|---|
| | Llyfryddiaeth | 4.1 |
| | Geirfa | 4.5 |
| | Aelodaeth y Grŵp Strategaeth Gymunedol | 4.7 |

## Rhan pump

| | | |
|---|---|---|
| **Atodiad A** | BILlau - Archwiliad o Weithgareddau Rheoli Heintiau - 2006 | 5.1 |
| **Atodiad B** | Atal a Rheoli Haint mewn Lleoliadau Cymunedol - Canllawiau a Rhestr Wirio | 5.3 |

## Yr amcanion strategol:

- Fe fydd pob aelod o'r staff yn deall effaith heintiau ac arferion atal a rheoli heintiau er mwyn eu galluogi i weithredu eu cyfrifoldebau personol at gleifion, staff eraill, ymwelwyr a hwy eu hunain. (Tudalen 2.3)
- Fe fydd cleifion yn cael eu trin mewn amgylcheddau ffisegol sy'n lleihau'r risg o heintiad. (Tudalen 2.5)
- Fe fydd sefydliadau'n datblygu rhaglen archwilio sy'n seiliedig ar angen lleol ac yn gwneud defnydd o ddulliau archwilio cydnabyddedig. Fe fydd canlyniadau archwiliadau'n cael eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer datblygu rhaglen rheoli heintiau a fydd yn ymgorffori rhaglen archwilio reolaidd a mentrau arolygu. (Tudalen 2.9)
- Fe fydd cyngor epidemiolegol arbenigol ar gael i gefnogi prosesau a rhaglenni rheoli heintiau sefydliadau. (Tudalen 2.5)
- Dylai'r nod o leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd gael ei ymgorffori o fewn cynlluniau rheoli cyffredinol ac fe fydd ganddo gysylltiadau â llywodraethu clinigol, rheoli risg a rheoli perfformiad. (Tudalen 2.11)
- Fe fydd sefydliadau'n datblygu systemau i safonau cenedlaethol a gytunwyd i sicrhau effeithiolrwydd mewn cofnodi, dadansoddi, rhannu a mynediad i'w data eu hunain, a mynediad i ffynonellau o wybodaeth sy'n briodol i'w hanghenion eu hunain ar gyfer rheoli heintiau o fewn eu sefydliad. (Tudalen 2.12)
- Rhaid i'r holl staff sy'n gweithio o fewn lleoliadau gofal iechyd cymunedol allu cael mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol priodol. (Tudalen 2.13)

## Sut y cyflawnir yr Amcanion Strategol hyn:

- Fe fydd Safonau Cenedlaethol sy'n gyfoes ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu mabwysiadu er mwyn sicrhau arferion cyson ac effeithiol ledled Cymru mewn atal a rheoli heintiau. (Tudalen 2.14)
- Rhaid i reoli heintiau gael ei gynnwys yn eitem graidd ar agenda pob sefydliad ac yng nghyfrifoldebau'r holl staff a'r rheolwyr (fel y bo'n briodol i'w swyddogaeth). (Tudalen 2.7)
- Rhaid i brosesau rheoli heintiau gael eu cefnogi gan staff arbenigol rheoli heintiau gydag adnoddau digonol, ynghyd ag amrywiaeth digonol o sgiliau i ddiwallu anghenion y cynllun rheoli heintiau cymunedol. (Tudalen 2.4)
- Dylai hyfforddiant ac addysg ar atal a rheoli heintiau gael eu cynnwys o fewn rhaglenni cynefino, a dylid sicrhau eu bod ar gael fel bo'n briodol i'r holl staff gofal iechyd cymunedol. (Tudalen 2.7)

# Rhan Dau

## Pennod 1: Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymunedol: Trosolwg

### Cefndir

Hyd yma, mae atal a rheoli heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd mewn lleoliadau cymunedol wedi bod yn faes a anwybyddwyd i raddau helaeth o gymharu ag ysbytai. Fodd bynnag, mae'n fwyfwy pwysig y dylid ategu rheolaeth effeithiol mewn lleoliadau gofal eilaidd gan ddatblygiad rheolaeth effeithiol o fewn lleoliadau cymunedol wrth i'r newid strategol yng nghydbwysedd y ddarpariaeth ofal barhau i symud tuag at ofal iechyd sylfaenol.(GIS)

Mae heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (HGGI) yn gosod baich cymdeithasol-economaidd ar y claf, eu perthnasau a'u gofalwyr ac ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Maent yn bwysig oherwydd:

- eu hamlder a'u graddfa - nid yn unig y mae HGGI yn effeithio ar unigolion ond gallant gael eu trosglwyddo i eraill ac achosi her sylweddol i iechyd y cyhoedd
- eu heffaith ar ddarparu gwasanaethau - mae HGGI yn cynyddu afiachusrwydd a marwolaethau, yn cynyddu hyd arosiadau mewn ysbytai ac yn gallu arwain at gau gwasanaethau dros dro
- eu heffaith ar ddisgwyliadau'r cyhoedd - yn hanesyddol mae iechyd wedi cael ei wella gan fesurau i atal heintiau
- eu delwedd negyddol - bernir bod HGGI yn adlewyrchiad o safonau hylendid gwael ac maent yn tanseilio'n ddifrifol hyder y cyhoedd yn eu gwasanaeth iechyd.

Caiff pwysigrwydd rheoli heintiau y tu allan i ffiniau ysbytai acíwt ei amlygu yn strategaeth y GIG yng Nghymru, *Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun ar gyfer y GIG a'i bartneriaid* (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001). Mae'n amlwg o fewn y Cynllun hwn fod gan bobl Cymru, a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gofalu amdanynt, yr hawl i ddisgwyl i ofal iechyd gael ei ddarparu mewn amgylchedd glân, wedi ei reoli'n dda lle defnyddir offer cyfredol a lle mae technoleg fodern ar gael. Mae'r Cynllun yn pwysleisio'r angen i gynnal y safonau uchel o hylendid ac arfer rheoli heintiau, ac felly'n lleihau'r risg o HGGI a sicrhau y gofelir am gleifion mewn amgylchedd diogel.

Mae atal yn eitem allweddol ar agenda strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru *Cynllun Oes* (2005). Mae'r weledigaeth hon ar gyfer 2015 yn amlwg yn datblygu themâu a glustnodwyd yn Adroddiad Wanless (Yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru) a oedd yn argymell gosod llawer mwy o bwyslais ar atal afiechyd ac ymyriad cynnar er mwyn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'i bwysigrwydd o ran gallu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i ddiwallu anghenion yn y dyfodol. http://new.wales.gov.uk/about/departments/dhss/publications/health_pub_index/reports/wanless?lang=cy

Mae rheoli clinigol a rheoli cyfleusterau'n ffactorau allweddol mewn cyfyngu ar HGGI ac mae'r rhain yn cynnwys:

- adnabod y ffactorau risg a lleihau eu heffaith
- gwella ymwrthedd cleifion i heintiad
- adnabod heintiau'n gynnar a'u trin yn effeithiol
- atal trosglwyddo o berson i berson
- cynnal amgylchedd glân.

## Y Strategaeth Genedlaethol

Dylai cleifion yng Nghymru ddisgwyl derbyn gofal a thriniaeth mewn modd nad yw'n achosi mwy o risg i'w hiechyd. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno strategaeth a chynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer atal a rheoli HGGI mewn cyfleusterau gofal iechyd mewn lleoliadau cymunedol a gofal iechyd sylfaenol.

Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar ddyfeisio a gweithredu:

- Seilwaith a threfniadaeth
- Hyfforddiant ac addysg
- Archwilio ac arolygu
- Ymyriadau a datblygu dangosyddion perfformiad
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Iechyd Galwedigaethol
- Safonau Cenedlaethol.

# Pennod 2: Seilwaith a Threfniadaeth

**Amcan Strategol:**

*Fe fydd pob aelod o staff yn deall effaith heintiau ac arferion atal a rheoli heintiau er mwyn eu galluogi i weithredu eu cyfrifoldebau personol at gleifion, staff eraill, ymwelwyr a hwy eu hunain.*

## Cyfrifoldebau Staff

*Rhaid i Reoli Heintiau gael ei gynnwys yn eitem graidd ar agenda pob sefydliad ac yng nghyfrifoldebau'r holl staff a'r rheolwyr (fel bo'n briodol i'w swyddogaeth).*

Her allweddol mewn atal heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yw sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle sy'n lleihau risg digwyddiadau niweidiol ym mhob cyswllt â chlaf neu gleient. Mae angen diwylliant cyfundrefnol er mwyn pwysleisio pwysigrwydd hanfodol gofal mewn amgylchedd diogel a chyfrifoldeb personol pob aelod o staff. Un o amcanion allweddol y strategaeth hon yw cyflwyno diwylliant glân trwy'r holl system gofal iechyd a sicrhau bod hylendid ac atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnwys ar yr agenda reoli ac yng nghyfrifoldebau'r holl staff.

Mae'r cyfrifoldeb statudol dros wasanaethau atal a rheoli heintiau yn y gymuned bellach gan y Byrddau Iechyd Lleol a'r Awdurdodau Lleol.(ALiau)

## Cyfrifoldebau Rheoli

Yr egwyddor gyffredinol i'w mabwysiadu yw y caiff unigolyn arweiniol ei enwi ym mhob sefydliad neu uned ar gyfer atal a rheoli heintiau. Fe fydd yr arweiniad dros gyfleusterau gofal iechyd trwy'r Byrddau Iechyd Lleol. Gan yr Awdurdod Lleol y bydd yr arweiniad dros safleoedd a gofrestrwyd gyda'r Awdurdod Lleol. Mae cyfleoedd yn bod o fewn strwythurau'r Byrddau Iechyd Lleol i sicrhau dull cydlynol ar y lefel leol hon. Rheolwyr a chlinigwyr lleol yn unig all benderfynu ar y trefniadau rheoli priodol, ond yr egwyddor ddylai fod yw bod pob aelod o staff yn adnabod eu cyfrifoldebau unigol o ran atal a rheoli heintiau a bod y trefniadau rheolaethol yno i sicrhau bod perchenogaeth leol.

Mae strategaeth y GIG yng Nghymru, Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid (2001), yn amlygu'r angen am ddiwylliant rheolaethol sy'n pwysleisio mor bwysig yw darparu gofal mewn amgylchedd diogel a chyfrifoldeb personol pob aelod o staff i gyfrannu at yr amcan hwn.
http://www.planforwales.wales.gov.uk/healthcare_services/index.htm

**Cyfrifoldebau Rheolaethol: Gweithredu**

2(i) Dylai sefydliadau adolygu trefniadau i sicrhau bod llinellau clir o atebolrwydd wedi cael eu sefydlu.

2(ii) Dylai pob sefydliad adolygu strwythur eu tîm rheoli a phenodi aelod i fod yn atebol yn ffurfiol am Arferion Rheoli Heintiau (ICP). Dylai sefydliadau adnabod yr ymrwymiadau rheoli heintiau ar gyfer yr holl feysydd perthnasol a gysylltir â'u gwaith, yn glinigol ac yn anghlinigol.

2(iii) Fe fydd y graddau y mae arbenigedd rheoli heintiau ar gael yn amrywio o sefydliad i sefydliad. Dylai sefydliadau geisio adnabod y fath arbenigedd sydd ar gael iddynt a defnyddio hyn i helpu i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn eu meysydd o weithgaredd. Dylai'r sefydliadau sicrhau bod trefniadau lleol yn datblygu ac yn cyfrannu at brosesau rheoli heintiau'r sefydliadau.

Dylid datblygu arbenigedd lleol mewn rheoli heintiau, a fydd yn ddigonol i anghenion y sefydliad.

## Cymorth Arbenigol ar gyfer Rheoli Heintiau

*Rhaid i brosesau Rheoli Heintiau gael eu cefnogi gan staff arbenigol rheoli heintiau gydag adnoddau digonol ynghyd ag amrywiaeth digonol o sgiliau i ddiwallu anghenion eu cynllun rheoli heintiau.*

Mae'r gefnogaeth sy'n bod ar hyn o bryd ar gyfer Rheoli Afiechydon Trosglwyddadwy yn cynnwys: Ymgynghorwyr mewn Rheoli Afiechydon Trosglwyddadwy (CCDC), nyrsys diogelu iechyd cyhoeddus, timau rheoli heintiau mewn Ymddiriedolaethau, y Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC) a Thîm Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru (WHAIPT). Mae'r asiantaethau hyn yn darparu cyngor arbenigol, arweiniad, rheoli achosion, ffurfio polisi, sgiliau epidemiolegol, ac addysg mewn atal a rheoli heintiau o fewn y gymuned.

Mae natur integredig Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru'n golygu fod gan dimau rheoli heintiau ysbytai feysydd amrywiol o gyfrifoldeb o fewn lleoliadau cymunedol. Fe fydd angen i sefydliadau sicrhau, mewn trafodaethau â Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Lleol neu Arolygiaethau, fod sgiliau priodol ar gael i ddiwallu eu hanghenion.

Fe fydd Is-grŵp Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru (WHAISG) yn parhau i arwain yn y maes hwn, fel y caiff ei ddatblygu, gyda'r camau gweithredu'n cael eu cyflawni gan WHAIPT.

| Arbenigedd Rheoli Heintiau: Gweithredu | |
|---|---|
| 2(iv) | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gychwyn adolygiad eang o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer rheoli heintiau yn y gymuned. Byddai'r adolygiad hwn yn clustnodi arferion da ac yn darparu argymhellion wedi eu diweddaru ar staffio ac adnoddau sy'n briodol i'r sefydliad allu cyflawni'r rhaglen o fewn y gymuned. |
| 2(v) | Dylai pob sefydliad adolygu'n gyson yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer rheoli heintiau. |

## Cymorth Epidemiolegol Arbenigol

**Amcan Strategol:**

*Fe fydd cyngor a chymorth epidemiolegol arbenigol ar gael ar gyfer prosesau a rhaglenni rheoli heintiau'r sefydliadau.*

Darperir cymorth epidemiolegol arbenigol ar gyfer heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd gan Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol trwy Dîm Rhaglen Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru.

| Cymorth Epidemiolegol Arbenigol: Gweithredu | |
|---|---|
| 2(vi) | Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod arbenigedd epidemiolegol ar gael, ac yn cael ei ddarparu'n lleol gan y timau diogelu iechyd lleol a chan y Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy. |

## Cyfleusterau

**Amcan Strategol:**

*Fe fydd cleifion yn cael eu trin mewn amgylcheddau ffisegol sy'n lleihau'r risg o heintiad.*

Mae atal a rheoli heintiau'n effeithiol yn golygu bod angen rhoi sylw i amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud ag ystadau a pheirianneg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- amgylchedd glân
- cyflenwadau dŵr a systemau oeri diogel
- cyfleusterau a ddyluniwyd i gwrdd â gofynion y sefydliad

- cyfleusterau ar gyfer dadlygru offer
- gwaredu gwastraff peryglus

Mae cyfleusterau priodol o fewn y gymuned gofal iechyd yn cael eu harolygu'n rheolaidd gan y cyrff arolygu perthnasol. Mae canllawiau ynghylch cyfleusterau priodol ar gael, gan gynnwys Nodyn Adeiladau Iechyd (HBN) 46, Safleoedd Practisau Meddygol Cyffredinol a HBN 30 Rheoli Heintiau yn yr Amgylchedd Adeiledig.

| Cyfleusterau: Gweithredu |
|---|
| 2(vii) Fe fydd gofyn i bob sefydliad hunan-archwilio eu safleoedd a chynnwys yr amgylchedd ffisegol. |

# Pennod 3: Hyfforddiant ac Addysg

**Amcan Strategol:**

*Dylai addysg a hyfforddiant atal heintiau gael eu cynnwys o fewn rhaglenni cynefino a sicrhau eu bod ar gael fel bo'n briodol i'r holl staff gofal iechyd cymunedol.*

Mae'r strategaeth hon yn gosod pwyslais cryf ar yr angen i bawb o'r gweithwyr gofal iechyd ddeall a gweithredu eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau mewn rheoli heintiau o fewn fframwaith llywodraethu clinigol a rheoli risg.

Mae nifer o broblemau sy'n gysylltiedig â chyflawni rhaglenni addysg a hyfforddiant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhaglenni hyfforddiant nad ydynt yn ddigon hygyrch
- diffyg darpariaeth, neu ddarpariaeth anghyflawn o hyfforddiant sefydlu ar gyfer pob grŵp o staff
- absenoldeb neu bresenoldeb anghyflawn staff mewn diweddariadau blynyddol
- diffyg archwiliadau i ddarganfod y graddau y mae hyfforddiant ar gael, a'i effeithiolrwydd.

Mae'r angen i ddatblygu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth rheoli heintiau mewn rhychwant eang o staff yn bwysig. Mae angen penderfynu pwy fydd â'r cyfrifoldeb ar lefel gyfundrefnol am hyfforddiant mewn swydd a chyfarwyddyd.

Mae Sgiliau Iechyd, gan weithio mewn partneriaeth gyda Choleg Brenhinol y Nyrsys (RCN) a Sgiliau Asedau wrthi'n datblygu set o gymwyseddau fel Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer Rheoli Heintiau.

Fe fydd y Safonau hyn ar gael yn rhwydd trwy wefan Sgiliau Iechyd, http://www.skillsforhealth.org.uk/ .

O ganlyniad i'r strategaeth ysbytai, cafodd cynnyrch E-ddysgu ar gyfer HGGI yng Nghymru ei lansio ym mis Mehefin 2006. Ar ôl ei roi ar waith fesul cam yn yr ymddiriedolaethau acíwt, fe fydd y pecyn hwn yn cael ei ehangu ar gyfer ei ddefnyddio gan rai sy'n gweithio yn y sector gofal cymunedol.

## Hyfforddiant ac Addysg: Gweithredu

3 (i) Dylai pob sefydliad gynnal ymarferiad cwmpasu lleol i weld pa ddarpariaeth addysg a hyfforddiant rheoli heintiau sydd ar gael, ac wedyn cynnal dadansoddiad o anghenion addysg a hyfforddiant.

3 (ii) Gall fod angen i raglenni hyfforddi lleol gael eu datblygu ymhellach fel eu bod yn:

- Adeiladu ar seilwaith presennol hyfforddiant ac addysg
- Darparu hyfforddiant amlddisgyblaethol mewn rheoli heintiau i arbenigwyr a rhai heb fod yn arbenigwyr
- Ystyried rhaglenni addysg cenedlaethol priodol megis rhaglen E-ddysgu HGGI a'u defnyddio lle bo'n briodol
- Talu sylw i'r safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer rheoli heintiau.

3 (iii) Fe fydd rhaglen E-ddysgu HGGI yn parhau'n gyfredol ac yn cael ei darparu i'r sector cymunedol.

3 (iv) WHAISG i ystyried sefydlu rhaglen hyfforddiant genedlaethol mewn Diogelu Iechyd gan gynnwys Rheoli Heintiau.

# Pennod 4: Archwilio ac Arolygu

**Amcan Strategol:**

*Fe fydd sefydliadau'n datblygu rhaglen archwilio sy'n seiliedig ar angen lleol ac yn gwneud defnydd o ddulliau archwilio cydnabyddedig. Fe fydd canlyniadau'r archwiliadau'n cael eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer datblygu rhaglen rheoli heintiau a fydd yn ymgorffori rhaglen archwilio reolaidd a mentrau arolygu.*

## Archwilio

Mae'n bwysig archwilio cydymffurfiaeth â Rhagofalon Safonol Rheoli Heintiau (SICPs) er mwyn dangos bod y rhai sy'n ymwneud â darparu gofal yn gweithredu'r rhagofalon (gweler Pennod 8). Mae archwilio'n darparu ffordd o fesur i ddarganfod a yw gweithwyr gofal iechyd yn deall y rhagofalon a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â hwy. Mae Cymdeithas y Nyrsys Rheoli Heintiau (ICNA) wedi datblygu offeryn archwilio mewn partneriaeth â'r Adran Iechyd (Lloegr) ar gyfer ei ddefnyddio o fewn lleoliadau cymunedol.
Gweler http://www.icna.co.uk/public/downloads/document/AuditTools2005.pdf

Cymeradwyir yr offeryn archwilio hwn fel un ffordd o fonitro gweithredu'r safonau a chanllawiau rheoli heintiau. Mae offerynnau hunan archwilio ac asesu eraill yn bod, y gellir eu mabwysiadu neu eu haddasu ar gyfer eu defnyddio ar lefel leol e.e. 'Camau hanfodol tuag at ofal diogel, glân' yr Adran Iechyd (Lloegr).
http//www.dh.go.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/
PublicationsPolicyAndGuidance/DH_064815/PublicationsPolicyAndGuidanceArticle/fs/ên
?CONTENT

**Archwilio: Gweithredu**

4(i) Sefydliadau i weithredu rhaglen archwilio briodol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau rheoli heintiau fel hylendid dwylo, gwastraff clinigol a thrafod gwrthrychau miniog.

4(ii) Dylid defnyddio darganfyddiadau'r rhaglen archwilio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer rhaglen reoli heintiau ehangach a fydd yn ymgorffori rhaglen dreigl o archwilio manwl, mentrau arolygu a rhaglen addysgol.

## Arolygu

Ystyrir arolygu fel cydran hanfodol o'r gwaith o rwystro HGGI mewn ysbytai ac mae wedi ymwreiddio'n gadarn yn y gwasanaeth. Yng nghyd-destun y gymuned, mae angen i fwy o waith gael ei wneud ar arolygu HGGI er mwyn sicrhau bod system gadarn yn ei lle. Maes allweddol sydd wedi cael ei adnabod yw cadw golwg am HGGI wrth i gleifion adael yr ysbyty. Fe fydd hyn yn gofyn am gefnogaeth gan y gymuned,

er enghraifft bydwragedd cymunedol yn cefnogi casglu data ôl-ryddhau ar gyfer arolygu Heintiad Safle Llawfeddygol (SSI) toriad Cesaraidd sy'n orfodol ar hyn o bryd yng Nghymru.

Gofynnir i Fyrddau Iechyd Lleol roi arweiniad wrth weithio gyda sefydliadau i ddatblygu'r gwaith o weithredu systemau arolygu mewn ymgynghoriaeth â WHAIPT. Fe fydd gofyn i sefydliadau sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gefnogi'r rhaglen arolygu.

**Arolygu: Gweithredu**

4(iii) Yn genedlaethol, fe fydd WHAIPT yn:

- Casglu data ôl-ryddhau Heintiad Safle Llawfeddygol o fewn y gymuned
- Cydweithio â Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau lleol a'r tîmau Diogelu Iechyd lleol i hwyluso datblygu mentrau arolygu lleol
- Cynnal astudiaeth ddichonoldeb er mwyn asesu a ellir datblygu arolygu HGGI ar lefel genedlaethol ledled y gwasanaeth cymunedol
- Datblygu eu gwefan i ddarparu cefnogaeth i'r strategaeth gymunedol a gwybodaeth i gefnogi'r gwaith o leihau HGGI yn y gymuned.

# Pennod 5: Ymyriadau a Datblygu Dangosyddion Perfformiad

**Amcan Strategol:**

*Dylai'r nod o leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd gael ei ymgorffori o fewn cynlluniau rheoli cyffredinol ac fe fydd ganddo gysylltiadau â llywodraethu clinigol, rheoli risg a rheoli perfformiad.*

Mae rheoli perfformiad yn effeithiol yn hanfodol i sefydliad llwyddiannus ac yn neilltuol o bwysig i GIG Cymru ar adeg pan fo cymaint o bwysau'n cael ei roi arno a phan fo angen i weithwyr proffesiynol iechyd, staff cymorth, rheolwyr a'r cyhoedd wybod sut y maent yn gwneud mewn cymhariaeth ag amcanion y cytunwyd arnynt.

## Ymyriadau a Dangosyddion Perfformiad

Mae nifer o ddangosyddion proses a all fod yn werthfawr yn y cyd-destun hwn:

- canran o staff a hyfforddwyd mewn rheoli heintiau
- cynnydd ar sail yr archwiliad rheoli heintiau
- cynnydd ar sail y rhaglen a gynlluniwyd ar gyfer rheoli heintiau.

**Ymyriadau a Dangosyddion Perfformiad: Gweithredu**

| | |
|---|---|
| 5(i) | Dylai Byrddau Iechyd Lleol geisio cytuno a gosod targedau blaenoriaethau lleol er mwyn lleihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y gymuned gyda chymorth gan WHAIPT. |
| 5(ii) | Fe fydd WHAIPT yn gweithio gyda'r sefydliadau i glustnodi dangosyddion allweddol sy'n gallu dangos gwelliannau mewn atal heintiau a/neu ddarparu rhybudd cynnar o risg. |

# Pennod 6: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

**Amcan Strategol:**

*Fe fydd sefydliadau'n datblygu systemau i safonau cenedlaethol a gytunwyd i sicrhau effeithiolrwydd mewn cofnodi, dadansoddi, rhannu a mynediad i'w data eu hunain, a mynediad i ffynonellau o wybodaeth sy'n briodol i'w hanghenion ar gyfer rheoli heintiau o fewn eu sefydliad.*

Mae cefnogaeth dda i reoli gwybodaeth a thechnoleg yn hanfodol ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn rheoli heintiau, yn enwedig:

- casglu, cofnodi, dadansoddi a lledaenu data at ddibenion arolygu
- gwell mynediad at wybodaeth glinigol
- olrhain lleoliadau cleifion
- asesu effaith gweithgaredd staff ar ganlyniadau heintiau
- deillio procsiaid ar gyfer effeithiolrwydd rheolaeth y gwaith o reoli heintiau
- rheoli canlyniadau microbioleg, rhagnodi ac ymwrthedd gwrthfiotigau
- hwyluso cyfathrebu a pheri bod diweddariadau, polisïau a chanllawiau ar gael
- sicrhau mynediad at gyngor arbenigol.

Fe fydd rheoli HGGI yn cael ei wella'n sylweddol trwy fuddsoddi mewn seilwaith rheoli gwybodaeth a thechnoleg. Mae datblygiadau diweddar mewn prosiectau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg (IM&T) o fewn practisau teulu'n dangos y potensial i gysylltu â WHAIPT. Dylid archwilio cyfleoedd pellach.

## Cyfathrebu

Gwefan WHAIPT fydd y prif borthol ar gyfer pob gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r rhaglen genedlaethol.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu: Gweithredu**

6(i) Fe fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau'n rhoi ystyriaeth i anghenion rheoli heintiau wrth ddatblygu a gweithredu rhaglenni rheoli gwybodaeth a thechnoleg yn y dyfodol.

6(ii) Bydd WHAIPT yn archwilio'r posibilrwydd o gyrchu gwybodaeth arolygu yn electronig (gweler 4 (iii))

6(iii) Fe fydd gwefan WHAIPT yn cael ei datblygu fel porthol pwysig ar gyfer cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth, gan gynnwys rhoi diweddariad rheolaidd am ddatblygiadau strategol.

# Pennod 7: Iechyd Galwedigaethol

**Amcan Strategol:**

*Rhaid i'r holl staff sy'n gweithio o fewn lleoliadau gofal iechyd cymunedol allu cael mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol priodol.*

Mae'r holl staff gofal iechyd mewn perygl o ddod i gysylltiad â HGGI. Mae gan y rhai a gyflogir gan Ymddiriedolaethau yng Nghymru fynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol. Mae cydweithio agos rhwng Timau Rheoli Heintiau a'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn hanfodol. Mae Iechyd Galwedigaethol yn darparu ystod lawn o wasanaethau gan gynnwys imiwneiddio (ee firws Hepatitis B, Ffliw), sgrinio staff (ee Twbercwlosis (TB), Staffylococws awrëws sy'n gwrthsefyll Methisilin (MRSA) os bydd angen) ac mae fel arfer yn chwarae rhan allweddol mewn rheoli digwyddiadau sy'n ymwneud â gwrthrychau miniog. Un angen neilltuol yw darparu gwasanaeth i ymdrin ag anafiadau brechu.

Mewn lleoliadau cymunedol gall fod yn anymarferol i bob sefydliad ddarparu ei Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol ei hun, ond o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (1974) http://www.healthandsafety.co.uk/haswa.htm, COSHH (2002) http://ptcl.chem.ox.ac.uk/MSDS/simplecoshh.pdf a RIDDOR http://www.opsi.gov.uk/SI/si1995/Uksi_19953163_en_1.htm mae cyfrifoldebau pob sefydliad at ei staff yn rhywbeth na ellir ei anwybyddu. Rhaid i staff gofal iechyd yn y gymuned gael mynediad at lefel o wasanaeth sy'n cymharu â'u cydweithwyr mewn ysbytai, e.e. trwy Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol yr Ymddiriedolaeth GIG lleol. Gall fod angen ehangu capasiti ar lefel leol neu gall fod angen ystyried cytundeb gyda darparwyr preifat.

| Iechyd Galwedigaethol: Gweithredu | |
|---|---|
| 7(i) | Gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar asesu risg, pob sefydliad i glustnodi a darparu'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol priodol sydd ei angen er mwyn diwallu anghenion eu staff. |

# Pennod 8: Safonau Cenedlaethol

*Fe fydd safonau cenedlaethol sy'n gyfoes ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu mabwysiadu er mwyn sicrhau arferion cyson ac effeithiol ledled Cymru mewn atal a rheoli heintiau.*

Ar 1 Mehefin 2005 daeth fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru*'i rym er mwyn cefnogi'r GIG a'i sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o ansawdd trwy'r holl leoliadau gofal iechyd. Defnyddir safonau gofal iechyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru fel rhan o'u prosesau ar gyfer asesu ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd darparwyr gofal iechyd a chomisiynwyr ledled Cymru.

Gweler: http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=465&id=61711&pid=8970

Cafodd *Safonau Gofal Iechyd Cymru - y Camau Nesaf*, WHC (2006)041, ei gyflwyno i Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG. Mae'n amlinellu'r systemau asesu a'r meini prawf arfaethedig, ynghyd â graddfeydd amser, a ddatblygwyd i gefnogi'r fframwaith o safonau gofal iechyd.

Gweler: http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=465&id=61708&pid=8970

Mae *Safonau Gofal Iechyd Cymru* wedi cael eu dosbarthu i bedwar maes: *profiad y claf, canlyniadau clinigol, llywodraethu gofal iechyd ac iechyd y cyhoedd*. Gellir mapio pob un o'r safonau o fewn y meysydd drosodd i ganllawiau presennol llywodraethu clinigol. Mae'r datganiadau safonau sy'n dilyn yn gosod sylfaen i *Safonau Gofal Iechyd Cymru*, yn enwedig safonau 4, 5 a 19 a dylid eu defnyddio i alluogi cyflawni'r safonau cenedlaethol yn lleol.

## Safon 4

Mae safleoedd gofal iechyd wedi eu cynllunio'n dda ac yn briodol er mwyn:

a) hybu lles y cleifion a'r staff

b) parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd

c) rhoi ystyriaeth i ddiogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff; a

ch) darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.

## Safon 5

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn amgylcheddau, sydd:

a) yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol

b) yn lleihau'r risg o heintiau cysylltiedig â gofal iechyd i gleifion, staff ac ymwelwyr, gan sicrhau gostyngiadau yn nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac

c) yn pwysleisio safonau uchel o hylendid ac yn adlewyrchu mentrau arferion gorau.

## Safon 19

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

a) bod yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol yn cael eu cadw i'r isafswm

b) bod dyfeisiadau meddygol amldro'n cael eu dadlygru'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau dadlygru'n cael eu rheoli'n effeithiol

c) bod materion sy'n ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli; a

ch) bod y gwaith o atal, gwahanu, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i ddiogelwch yr amgylchedd.

Mae'r egwyddorion ar gyfer atal a rheoli heintiad yn aros yr un fath o fewn pob lleoliad gofal iechyd ac mae'r arfer o atal a rheoli heintiau yn cynnwys gweithredu'r 'rhagofalon safonol rheoli heintiau' (y cyfeirir atynt weithiau fel y *Rhagofalon Cyffredinol*):

a) sy'n rhaid iddynt gael eu defnyddio gan yr **holl** weithwyr gofal iechyd i atal lledaenu micro-organebau a allai achosi heintiad

b) sy'n rhaid iddynt gael eu defnyddio ym mhob lleoliad gofal

c) a ddefnyddir i amddiffyn staff, y claf/cleient a'r rhai sy'n gofalu am eraill gan gynnwys gofalwyr, perthnasau ac ymwelwyr; ac

ch) a ddefnyddir bob amser yn y lleoliad gofal boed yn hysbys fod haint yn bresennol neu beidio.

## Rhagofalon Safonol Rheoli Heintiau (SICPs)

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n argymell defnyddio Rhagofalon Safonol Rheoli Heintiau (y Rhagofalon) i leihau'r trosglwyddiad o ficro-organebau ar gyfer ffynonellau hysbys ac anhysbys o haint. Lle caiff haint penodol ei amau neu ei gadarnhau gall fod yn angenrheidiol defnyddio rhagofalon ychwanegol a gall fod angen ceisio cyngor ychwanegol oddi wrth staff arbenigol/cynghorwyr.

Mae addysgu a hyfforddi pawb sy'n ymwneud â gofalu am eraill yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rhagofalon.

Mae'r dull modiwlaidd a ddefnyddir yn yr adnodd cenedlaethol e-ddysgu a ddatblygwyd ar gyfer Pencampwyr Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd yn seiliedig ar y Rhagofalon.

Gweler http://www.wales.nhs.uk/sites/home.cfm?OrgID=379

*Naw Elfen y Rhagofalon Safonol Rheoli Heintiau*

| | Rhagofal Safonol Rheoli Heintiau | Rheswm dros ei weithredu |
|---|---|---|
| 1 | Hylendid dwylo - i'w gyflawni cyn ac ar ôl pob cysylltiad â chlaf | Cyfeirir ato'n aml fel 'y weithred unigol bwysicaf i atal a rheoli heintiad' |
| 2 | Cyfarpar amddiffyn personol<br>- Menig<br>- Ffedogau, gynau, esgidiau<br>- Amddiffyniad i'r llygaid a'r wyneb | Amddiffyn y croen, y llygaid, yr wyneb a dillad rhag llygriad/baeddu/tasgu |
| 3 | Atal peryglon galwedigaethol<br>- Gorchuddio pob toriad yn y croen<br>- Osgoi anafiadau gan wrthrychau miniog<br>- Osgoi tasgu gyda gwaed neu hylifau'r corff | Amddiffyn pawb sy'n derbyn gofal iechyd, gweithwyr gofal iechyd, gofalwyr ac eraill rhag dod i gysylltiad â micro-organebau sy'n achosi heintiau |
| 4 | Rheoli colli gwaed a hylifau'r corff | Amddiffyn pawb sydd o gwmpas rhag cysylltiad â micro-organebau a allai achosi haint |
| 5 | Dadlygru offer gofal (yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwyr) | - Atal ailddefnyddio dyfeisiadau untro<br>- Atal dyfeisiadau a fwriedir ar gyfer un claf rhag cael eu defnyddio ar gleifion eraill<br>- Sicrhau bod dyfeisiadau amldro'n cael eu dadlygru rhwng yr adegau y'u defnyddir<br>- Rhwystro llygru amgylcheddol |
| 6 | Glendid yr amgylchedd | Sicrhau bod y lleoliad gofal yn cael ei lanhau'n ddigonol i rwystro traws-heintio rhag digwydd |
| 7 | Trin llieiniau'n ddiogel | Amddiffyn gweithwyr gofal iechyd ac eraill |
| 8 | Gwaredu gwastraff yn ddiogel | Amddiffyn gweithwyr gofal iechyd ac eraill |
| 9 | Lleoli cleifion | Atal pobl eraill a'r amgylchedd rhag dod i gysylltiad â gwaed a hylifau'r corff. Atal traws-heintio |

Mae'r safonau atal a rheoli heintiau ar gyfer lleoliadau gofal iechyd cymunedol a gaiff eu mabwysiadu ledled Cymru'n adlewyrchu'r Rhagofalon ac yn sylfaen i Safonau Gofal Iechyd Cymru.

**Datganiad safon: Hylendid Dwylo**
*(Safonau Gofal Iechyd Cymru Safon 5)*

Fe fydd dwylo'n cael eu dadlygru'n briodol ac yn amserol gan ddefnyddio sylwedd glanhau i leihau'r risg o draws-heintio:

- Canllawiau Arfer ar Sail Tystiolaeth mewn Rheoli Heintiau (EPIC) http://www.epic.tvu.ac.uk/
- Canllawiau ymarferol Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar hylendid dwylo mewn gofal iechyd (drafft datblygedig): crynodeb - mae dwylo glân yn ddwylo diogelach http://www.who.int/patientsafety/events/05/HH en. pdf
- Canllawiau Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) http://www.npsa.nhs.uk/cleanyourhands

Fe fydd yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Adran Iechyd (Lloegr) i ddatblygu rhaglen unswydd i wella hylendid dwylo mewn gofal heb fod yn acíwt. Fe fydd hyn yn adeiladu ar ddysgu ac ymwybyddiaeth brand o'r ymgyrch 'glanhewcheichdwylo' a anelir at ysbytai acíwt. Fe fydd yr Asiantaeth yn cyhoeddi llythyr yn amlygu pwysigrwydd hylendid dwylo ym mhob lleoliad gofal ac yn annog sefydliadau gofal iechyd i sicrhau bod hylif alcohol ar gael i rwbio dwylo yn y man gofal er mwyn hwyluso hyn.

Fe fydd yr NPSA hefyd yn:

- datblygu canllawiau ar gyfer gweithredu - ac yn darparu set ganolog o ddefnyddiau y gellir cael atynt trwy wefan 'glanhewcheichdwylo' http://www.npsa.nhs.uk/cleanyourhands
- cynhyrchu ystod a swm cyfyngedig o nwyddau copi caled yn ganolog
- rhoi anogaeth i fonitro cydymffurfiaeth o fewn y rhaglen hylendid dwylo ehangach
- ymgorffori adnoddau presennol a ddatblygwyd eisoes ar gyfer yr ymgyrch 'glanhewcheichdwylo' acíwt yn y pecyn cymorth.

**Datganiad safon: Offer amddiffyn personol**
*(Safonau Gofal Iechyd Cymru Safon 5)*

Fe fydd offer amddiffyn personol (PPE) ar gael, i'w ddefnyddio a'i waredu, neu ei ddadlygru'n briodol i leihau'r risg o draws-heintio.

Mae hyn yn cynnwys defnyddio menig, ffedogau, gynau, amddiffyniad wyneb ac amddiffyniad resbiradol fel y bo'n briodol:

- Deddf PPE - http://www.hse.gov.uk/pubns/indg174.pdf
- Canllawiau EPIC - http://www.epic.tvu.ac.uk/

### Datganiad safon: Atal cysylltiad galwedigaethol

Anafiadau gwrthrychau miniog/nodwyddau, brathiadau a thasgiadau sy'n ymwneud â gwaed a hylifau eraill y corff i gael eu rheoli mewn modd sy'n lleihau'r risg o anaf - dylai system adrodd fod yn ei lle i gofnodi digwyddiadau (gan gynnwys achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd) a thriniaeth briodol yn cael ei darparu os oes angen hynny.

Gweler CanllawiauCymru Gyfan ar Anafiadau wrth Frechu ym Maes Gofal Sylfaenol; http://www2.nphs.wales.nhs.uk/icds/page.cfm?pid=339

### Datganiad safon: Rheoli colli gwaed a hylifau'r corff

Ymdrinnir yn ddi-oed â cholled neu lygriad gwaed neu hylif corff a hynny mewn modd sy'n lleihau'r risg o draws-heintiad.

Gweler y Safonau Glendid Cenedlaethol: http://new.wales.gov.uk/about/departments/dhss/publications/health_pub_index/guidance/national_standards_cleanliness?lang=cy

### Datganiad Safon: Dadlygru offer gofal

Fe fydd dadlygru'r holl offer/offerynnau meddygol amldro'n sicrhau bod yr holl offerynnau'n cael eu dadlygru'n ddigonol cyn cael eu hailddefnyddio a bod unrhyw risgiau'n cael eu rheoli.

Gweler y Canllawiau Rheoli Heintiau mewn Practisau Meddygol. http://www.icna.co.uk/public/prod_pub/product.asp?pid=24

Lle bo angen sterileiddio, dylid gwneud hyn lle bynnag bo hynny'n bosibl mewn adran gwasanaeth sterileiddio a achredwyd gan yr UE.

Rhaid i sterileiddio a phrosesau diheintio ar safle gydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol.

Rhaid peidio ag ailddefnyddio dyfeisiadau un-claf ar gyfer mwy nag un claf:

- Canllawiau'r Pwyllgor Cynghorol Meddygol (MAC) ar sterileiddio, diheintio a glanhau offer meddygol. Adran Iechyd (Lloegr) 2006 ISBN 1-85-839518-6
- Canllawiau Asiantaeth Rheoleiddio Cynhyrchion Meddygol a Gofal Iechyd (MHRA) MDA DB2000(04) Awst 2000

### Datganiad safon: Glendid yr amgylchedd

Fe fydd cleifion yn cael eu trin mewn amgylcheddau ffisegol sy'n lleihau'r risg o heintiad:

- Safonau Glendid Cenedlaethol ar gyfer Ysbytai - http://new.wales.gov.uk/about/departments/dhss/publications/health_pubindex/guidance/national_standards_cleanliness?lang=cy
- Canllawiau EPIC http://www.epic.tvu.ac.uk/
- HBN 30 Rheoli Heintiau yn yr Amgylchedd Adeiledig http://howis.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=301&id=22548&pid=647
- Rheoli Heintiau mewn Deintyddiaeth http://www.bda.org/advice/docs/A12.pdf

### Datganiad safon: Trin llieiniau'n ddiogel

Caiff llieiniau eu trin a'u rheoli'n briodol i atal traws-heintiad:

- HSG (95)18 (wrthi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd) http://www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/LettersAndCirculars/HealthServiceGuidelines/HealthServiceGuidelinesArticle/fs/en?CONTENT_ID=4017865&chk=5MeXDx

Lle bo'n berthnasol gwneir darpariaeth ddiogel ar gyfer golchi dillad cleifion/cleientiaid a mân eitemau e.e. eitemau cegin, dodrefn meddal, llenni cawod.

### Datganiad safon: Gwaredu gwastraff peryglus a chlinigol yn ddiogel

Gwaredir yn ddiogel â gwastraff heb y risg o lygriad neu anaf ac yn unol â deddfwriaeth genedlaethol a rheoliadau lleol:

- Rheoliadau Gwastraff Peryglus Gorffennaf 2005 - HTM 07-01 Rheolaeth Ddiogel o Wastraff Gofal Iechyd (Tachwedd 2006) http://www.rpsgb.org.uk/pdfs/hazwastehospphguid.pdf
- Canllawiau Strategaeth Gwastraff Gofal Iechyd Cymru (Tachwedd 2006) http://www.wales.nhs.uk/documents/WHC_2006_043.pdf

### Datganiad safon: Lleoli cleifion

Caiff gofal ei weinyddu mewn amgylchedd priodol er mwyn lleihau'r risg o heintiad i gleifion eraill, gofalwyr, ymwelwyr neu berthnasau.

### Canllawiau ac Adnoddau

Ar hyn o bryd mae nifer o ganllawiau sy'n bod i gefnogi'r arfer o reoli heintiau mewn lleoliadau cymunedol, gan gynnwys:

- Adnodd Cenedlaethol Rheoli Heintiau (NRIC) http://www.nric.org.uk/IntegratedCRD.nsf/NRIC_Home1?OpenForm

- Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE)
  http://www.nice.org.uk/page.aspx?o=CG002NICEguideline
- Canllawiau Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol (RCGP)/Cymdeithas Nyrsys Rheoli Heintiau (ICNA)
  http://www.icna.co.uk/public/prod_pub/product.asp?pid=24
- Canllawiau Adran Iechyd (Lloegr) ar Reoli Heintiau i Gartrefi Gofal - PHMEG
  http://www.dh.gov.uk/assetRoot/04/13/63/84/04136384.pdf
- Canllawiau Rheoli Heintiau Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS) i Gartrefi Gofal
  http://www.nphs.wales.nhs.uk/icds/page.cfm?pid=1568
- Canllawiau EPIC (Arfer ar sail Tystiolaeth mewn Rheoli Heintiau)
  http://www.epic.tvu.ac.uk/
- Taflen cyngor deintyddol BDA. A12 Rheoli Heintiau mewn Deintyddiaeth
  http://www.bda.org/advice/docs/A12.pdf

Dylai polisïau a gweithdrefnau lleol gynnwys cyfeiriad at:

- Hylendid dwylo
- Offer amddiffyn personol
- Dadlygru offer gofal
- Glendid yr amgylchedd
- Trin llieiniau'n ddiogel
- Techneg aseptig
- Lleoli/ynysu cleifion
- Trin a gwaredu gwrthrychau miniog yn ddiogel
- Gwastraff clinigol/peryglus
- Atal cysylltiadau galwedigaethol â firysau a gludir yn y gwaed
- Rheoli cysylltiadau galwedigaethol â firysau a gludir yn y gwaed a phroffylacsis ôl-gysylltiad
- Rheoli heintiau ag organebau rhybudd penodol e.e. Staffylococws awrëws sy'n gwrthsefyll Methisilin (MRSA), twbercwlosis (TB), ffliw adar, firysau a gludir yn y gwaed; ac
- Achosion mawr o haint trosglwyddadwy e.e. afiechyd dolur rhydd.

Dylai'r BILlau a sefydliadau unigol hefyd fod â pholisi ar gyfer adnabod a rheoli achosion o heintiau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi fframwaith ar gyfer rheoli argyfyngau mawr o ran clefydau heintus:

http://new.wales.gov.uk/topics/health/protection/communicable-disease/flu/?lang=en

| Safonau: Gweithredu | |
|---|---|
| 8(i) | Fe fydd sefydliadau'n cydymffurfio â safonau presennol rheoli heintiau. Wrth wneud hynny, fe fydd sefydliadau'n ystyried:- <br>• Rôl timau clinigol o fewn y fframwaith atebolrwydd <br>• Ymgorffori mesurau canlyniadau o fewn dangosyddion perfformiad perthnasol fel y cânt eu datblygu. <br>Dylai Byrddau Iechyd Lleol gydweithio'n agos â sefydliadau er mwyn sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cyflwyno'n ddidramgwydd. |
| 8(ii) | Safonau ar gyfer rheoli heintiau i gael eu mabwysiadu gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). |
| 8(iii) | Dylai cyrff comisiynu, e.e. Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol gyfeirio at y safonau hyn wrth adolygu'r cytundebau y maent yn eu comisiynu. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Seilwaith a Threfniadaeth (Gweler y naratif ym Mhennod 2, tudalen 2.3)** | | |
| AMCAN STRATEGOL: Fe fydd pob aelod o'r staff yn deall effaith heintiau ac arferion atal a rheoli heintiau er mwyn eu galluogi i weithredu eu cyfrifoldebau personol at gleifion, staff eraill, ymwelwyr a hwy eu hunain. | | |
| *Rhaid i Reoli Heintiau gael ei gynnwys fel eitem graidd ar agenda pob sefydliad ac yng nghyfrifoldebau'r holl staff a'r rheolwyr (fel y bo'n briodol i'w swyddogaeth).*<br><br>Llinellau clir o atebolrwydd i fodoli ar gyfer pawb o'r staff i gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau rheoli heintiau. Dylai'r egwyddor fod gan dimau lleol atebolrwydd clir dros reoli heintiau gael ei amlygu o fewn y sefydliad. | 2(i) Dylai sefydliadau adolygu trefniadau i sicrhau bod llinellau clir o atebolrwydd wedi cael eu sefydlu.<br><br>2(ii) Dylai pob sefydliad adolygu strwythur eu tîm rheoli a phenodi aelod i fod yn atebol yn ffurfiol dros Arferion Rheoli Heintiau (ICP). | **Cyfrifoldeb**<br>• Uwch reolwyr/partneriaid i fodloni eu hunain fod atal a rheoli heintiau wedi ymgorffori yn y sefydliad ac yn cael ei adlewyrchu gan bolisi a gweithdrefnau a'i fod hefyd ar agenda pob cyfarfod o'r bwrdd gweithredol.<br>• Uwch reolwyr/partneriaid i gytuno ar strwythur rheoli ac enwebu/ penodi arweinydd atal a rheoli heintiau.<br>• Arweinydd atal a rheoli heintiau i ddarganfod rhwydweithiau o gyngor sydd ar gael i'r sefydliad. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
| --- | --- | --- |
| **Seilwaith a Threfniadaeth (Gweler y naratif ym Mhennod 2, tudalen 2.3)** | | |
| Sefydliadau i ymgorffori trefniadau atal a rheoli heintiau o fewn eu strwythur. Fe fydd trefniadau'n amrywio, gan ddibynnu ar faint y sefydliad. Fe fydd y sefydliad yn rhwydweithio gyda rhannau eraill o ofal iechyd er mwyn cael arbenigedd.<br><br>Fe fydd gan bob sefydliad a glustnodir arweinydd uwch (clinigol neu anghlinigol fel bo'n briodol) sy'n atebol yn ffurfiol dros arferion rheoli heintiau, gyda rhwydweithiau at gyngor arbenigol.<br><br>Fe fydd pob sefydliad yn penderfynu ar y flaenoriaeth weithredu yn eu maes o weithgaredd trwy broses rheoli risg y sefydliad. | 2(iii) Fe fydd y graddau y mae arbenigedd Rheoli Heintiau ar gael yn amrywio o sefydliad i sefydliad. Dylai sefydliadau geisio adnabod y fath arbenigedd sydd ar gael iddynt a defnyddio hyn i helpu i benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn eu meysydd o weithgaredd. Dylai'r sefydliadau sicrhau bod trefniadau lleol yn datblygu ac yn cyfrannu at brosesau rheoli heintiau'r sefydliad. | **Monitro**<br>• Fe fydd y trefniadau monitro perfformiad/cytundebau sy'n berthnasol i'r sefydliad yn cynnwys asesu trefniadau atal a rheoli heintiau. Gallai'r dystiolaeth gynnwys: dogfennau polisi atal a rheoli heintiau sy'n rhoi manylion am drefniadau rheolwyr, atebolrwydd ac arweinydd IPC. Dylid cynnwys manylion cyswllt am gyngor mwy arbenigol.<br>• Fe fydd dogfen dechnegol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn datblygu trefniadau monitro.<br><br>**Graddfa Amser**<br>• Medi 2008. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Cefnogaeth Arbenigol Rheoli Heintiau (Gweler y naratif ym Mhennod 2, tudalen 2.4)** | | |
| AMCAN STRATEGOL: Rhaid i brosesau rheoli heintiau gael eu cefnogi gan staff arbenigol rheoli heintiau gydag adnoddau digonol ynghyd ag amrywiaeth digonol o sgiliau i ddiwallu anghenion y cynllun rheoli heintiau eu sefydliad. | | |
| Fe wnaeth y trefniadau rheolaethol a amlinellir yn HSG(95)10 "Rheoli Heintiau Ysbytai - canllaw ar reoli heintiau mewn ysbytai" http://www.dh.gov.uk/en/PublicationsAndStatistics/LettersAndCirculars/HealthServiceGuidelines/DH_4017852 ddatblygu egwyddorion arferion da mewn rheoli heintiau. Er eu bod wedi eu hanelu at ysbytai, gallai llawer o'r trefniadau fod yn gymwys i wasanaethau gofal cymunedol.<br><br>Fodd bynnag, mae canllawiau ac argymhellion rheoli heintiau am gael eu hadolygu'n rheolaidd gan WHAISG er mwyn adlewyrchu arferion gofal iechyd presennol. | 2(iv) Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gychwyn adolygiad eang o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer rheoli heintiau yn y gymuned. Byddai'r adolygiad hwn yn clustnodi arferion da ac yn darparu argymhellion wedi eu diweddaru ar staffio ac adnoddau sy'n briodol i'r sefydliad allu cyflawni'r rhaglen o fewn y gymuned.<br><br>2(v) Dylai pob sefydliad adolygu'n gyson yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer rheoli heintiau. | **Cyfrifoldeb**<br>• Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>• Yr holl sefydliadau.<br><br>**Monitro**<br>• Cyfredol - rôl Swyddfa Ranbarthol y GIG fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad sefydliadau<br>• Fe fydd AGIC yn archwilio BILlau<br>• Fe fydd BILlau yn monitro meddygfeydd cyffredinol a rhai deintyddol<br>• Fe fydd cyrff comisiynu'n monitro cartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, cyfleusterau iechyd meddwl a chyfleusterau anabledd dysgu.<br><br>**Graddfa Amser**<br>• Rhagfyr 2008. |

| FFRAMWAITH CYFLENWI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Cymorth Epidemiolegol Arbenigol (gweler y naratif ym mhennod 2, tudalen 2.5)** | | |
| AMCAN STRATEGOL: Fe fydd cyngor a chymorth epidemiolegol arbenigol ar gael ar gyfer prosesau a rhaglenni rheoli heintiau'r sefydliadau. | | |
| Cyngor a chefnogaeth arbenigol digonol i'r strategaeth oddi wrth Wasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICC). | 2(vi) Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod arbenigedd epidemiolegol ar gael ac yn cael ei ddarparu'n lleol gan y timau diogelu iechyd cyhoeddus lleol a chan y Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC). | **Cyfrifoldeb**<br>• GICC.<br>**Monitro**<br>• WHAISG.<br>**Graddfa Amser**<br>• Cyfredol. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Cyfleusterau (Gweler y naratif ym Mhennod 2, tudalen 2.5)** | | |
| AMCAN STRATEGOL: Fe fydd cleifion yn cael eu trin mewn amgylcheddau ffisegol sy'n lleihau'r risg o heintiad. | | |
| Mae'r Safonau Glendid Cenedlaethol, ynghyd â gwaith gan Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion, yn ffurfio fframwaith cynhwysfawr ar gyfer rheoli heintiau a rheoli hylendid.<br><br>Fe fydd sefydliadau'n cydymffurfio â:-<br><br>WHC 2002 (116) Polisi Rheoli Amgylcheddol ar gyfer Ystâd y GIG http://howis.wales.nhs.uk/doclib/whc2002-116-e.pdf<br><br>Rheoli Heintiau mewn Amgylchedd Adeiledig - Ystâd y GIG http://howis.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=301&id=22548&pid=647<br><br>Cynllun Oes - Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mai 2005 http://howis.wales.nhs.uk/doclib/designed-for-life-e.pdf<br><br>HBN 46 Adeiladau Practisau Meddygol Cyffredinol<br><br>HBN 30 Rheoli Heintiau yr yr Amgylchedd Adeiledig | 2(vii) Fe fydd gofyn i bob sefydliad hunan-archwilio eu safleoedd a chynnwys yr amgylchedd ffisegol. | **Cyfrifoldeb**<br>• Sefydliadau<br><br>**Monitro**<br>• Cyfredol - rôl Swyddfa Ranbarthol y GIG fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad sefydliadau<br>• Fe fydd AGIC yn archwilio BILlau<br>• Fe fydd BILlau yn monitro meddygfeydd cyffredinol a rhai deintyddol<br>• Fe fydd cyrff comisiynu'n monitro cartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, cyfleusterau iechyd meddwl a chyfleusterau anabledd dysgu.<br><br>**Graddfa Amser**<br>• Cyfredol. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Hyfforddiant ac Addysg (Gweler y naratif ym Mhennod 3, tudalen 2.7)** | | |
| AMCAN STRATEGOL: Dylai hyfforddiant ac addysg atal a rheoli heintiau gael eu cynnwys o fewn rhaglenni cynefino a dylid sicrhau eu bod ar gael fel y bo'n briodol i'r holl staff gofal iechyd cymunedol. | | |
| Sefydliadau i sicrhau bod hyfforddiant ac addysg yn cael eu darparu i'r holl staff i ddiwallu eu hanghenion. | 3 (i) Dylai pob sefydliad gynnal ymarferiad cwmpasu lleol i weld pa ddarpariaeth addysg a hyfforddiant rheoli heintiau sydd ar gael ac wedyn cynnal dadansoddiad o anghenion addysg a hyfforddiant.<br><br>3 (ii) Gall fod angen datblygu'r rhaglenni hyfforddi lleol fel eu bod yn:<br>• Adeiladu ar y strwythur hyfforddiant ac addysg bresennol<br>• Darparu hyfforddiant amlddisgyblaethol rheoli heintiau i arbenigwyr a rhai heb fod yn arbenigwyr<br>• Ystyried, a defnyddio lle bo'n briodol, raglenni addysg cenedlaethol megis y rhaglen E-ddysgu HGGI<br>• Talu sylw i'r safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer rheoli heintiau. | **Cyfrifoldeb**<br>• Yr holl sefydliadau.<br><br>**Monitro**<br>• Cyfredol - rôl Swyddfa Ranbarthol y GIG fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad sefydliadau<br>• Fe fydd AGIC yn archwilio BILlau<br>• Fe fydd BILlau yn monitro meddygfeydd cyffredinol a rhai deintyddol<br>• Fe fydd cyrff comisiynu'n monitro cartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, cyfleusterau iechyd meddwl a chyfleusterau anabledd dysgu.<br><br>**Graddfa Amser**<br>• Rhagfyr 2008. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Hyfforddiant ac Addysg (Gweler y naratif ym Mhennod 3, tudalen 2.7)** | | |
| Pecyn E-ddysgu Rheoli Heintiau gweler http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=379&pid=24141 | 3 (iii) Fe fydd rhaglen E-ddysgu HGGI yn parhau'n gyfredol ac yn cael ei darparu i'r sector cymunedol. | **Cyfrifoldeb**<br>• WHAIPT.<br>**Monitro**<br>• Llywodraeth Cynulliad Cymru.<br>**Graddfa amser**<br>• Gweithrediadau cyntaf y pecyn erbyn Ebrill 2008. |
| | 3(iv) WHAISG i ystyried sefydlu rhaglen hyfforddiant genedlaethol mewn Diogelu Iechyd gan gynnwys Rheoli Heintiau. | **Cyfrifoldeb**<br>• WHAISG.<br>**Monitro**<br>• Llywodraeth Cynulliad Cymru.<br>**Graddfa amser**<br>• Argymhellion ynghylch rhaglen hyfforddi genedlaethol i gael eu gwneud erbyn Rhagfyr 2008. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Archwilio ac Arolygu (Gweler y naratif ym Mhennod 4, tudalen 2.9)** | | |
| AMCAN STRATEGOL: Fe fydd sefydliadau'n datblygu rhaglen archwilio sy'n seiliedig ar angen lleol ac yn gwneud defnydd o ddulliau archwilio cydnabyddedig. Fe fydd canlyniadau archwiliadau'n cael eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer datblygu rhaglen rheoli heintiau a fydd yn ymgorffori rhaglen archwilio reolaidd a mentrau arolygu. | | |
| **Archwilio**<br><br>O fewn fframwaith llywodraethu clinigol priodol y sefydliad, mae rhaglen archwilio clinigol yn offeryn pwysig ar gyfer monitro gweithredu polisïau a pherfformiad gweithredol.<br><br>Gweler Offeryn Archwilio Cymunedol Cymdeithas y Nyrsys Rheoli Heintiau ICNA http://www.icna.co.uk/public/downloads/documents/AuditTools2005.pdf<br><br>Dogfen Sicrhau Ansawdd ac Asesu Arferion Cymru gyfan (ar gael gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Deintyddol GICC). | 4(i) Sefydliadau i weithredu rhaglen archwilio briodol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau rheoli heintiau fel hylendid dwylo, gwastraff clinigol a thrafod gwrthrychau miniog. | **Cyfrifoldeb**<br>• Sefydliadau.<br>**Monitro**<br>• Fe fydd AGIC yn archwilio BILlau<br>• Fe fydd BILlau yn monitro meddygfeydd cyffredinol a rhai deintyddol<br>• Fe fydd cyrff comisiynu'n monitro cartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, cyfleusterau iechyd meddwl a chyfleusterau anabledd dysgu.<br>**Graddfa Amser**<br>• Dylai'r rhaglen archwilio gael ei gweithredu erbyn Rhagfyr 2008. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Archwilio ac Arolygu (Gweler y naratif ym Mhennod 4, tudalen 2.9)** | | |
| | 4(ii) Dylid defnyddio darganfyddiadau'r rhaglen archwilio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer rhaglen reoli heintiau ehangach a fydd yn ymgorffori rhaglen dreigl o archwilio manwl, mentrau arolygu a rhaglen addysgol. | **Cyfrifoldeb**<br>• Sefydliadau.<br>**Monitro**<br>• Fe fydd AGIC yn archwilio BILlau<br>• Fe fydd BILlau yn monitro meddygfeydd cyffredinol a rhai deintyddol<br>• Fe fydd cyrff comisiynu'n monitro cartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, cyfleusterau iechyd meddwl a chyfleusterau anabledd dysgu.<br>**Graddfa Amser**<br>• Dylai'r rhaglen dreigl archwilio gael ei gweithredu erbyn Rhagfyr 2009. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Archwilio ac Arolygu (Gweler y naratif ym Mhennod 4, tudalen 2.9)** | | |
| **Arolygu**<br><br>Nid oes systemau yn eu lle eto ar gyfer arolygu rheolaidd o heintiau cysylltiedig â gofal iechyd yn y gymuned. Dylid rhoi ystyriaeth i ddichonoldeb datblygu rhaglenni arolygu HGGI yn y gymuned. Gallai hyn ddarparu gwybodaeth dda ar gyfer cynllunio cyflawni gwasanaethau, gwerthuso cynnydd a dangos gwelliannau.<br><br>Dylid rhoi cefnogaeth barhaus i gasglu gwybodaeth o arolygiadau ôl-ryddhau Heintiad Safle Llawfeddygol yn y gymuned. | 4(iii) Yn genedlaethol, fe fydd WHAIPT yn:<br>• Casglu data ôl-ryddhau heintiad safle llawfeddygol o fewn y gymuned<br>• Cydweithio â Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau lleol a Thimau Diogelu Iechyd lleol i hwyluso datblygu mentrau arolygu lleol<br>• Cynnal astudiaeth ddichonoldeb er mwyn asesu a ellir datblygu arolygiadau HGGI ar lefel genedlaethol ledled y gwasanaeth cymunedol<br>• Datblygu eu gwefan i ddarparu cefnogaeth i'r strategaeth gymunedol a gwybodaeth i gefnogi'r gwaith o leihau HGGI yn y gymuned. | **Cyfrifoldeb**<br>• WHAIPT.<br>**Monitro**<br>• WHAISG.<br>**Graddfa Amser**<br>Dylai'r astudiaeth fod wedi ei chwblhau erbyn Rhagfyr 2008. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Ymyriadau a Datblygu Dangosyddion Perfformiad (Gweler y naratif ym Mhennod 5, tudalen 2.11)** | | |
| AMCAN STRATEGOL: Dylai'r nod o leihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd gael ei ymgorffori o fewn cynlluniau rheoli cyffredinol ac fe fydd ganddo gysylltiadau â llywodraethu clinigol, rheoli risg a rheoli perfformiad. | | |
| Fe fydd Canllawiau Technegol Atal a Rheoli Heintiau mewn Lleoliadau Cymunedol (gweler Atodiad B) yn cefnogi safonau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac yn ffurfio sylfaen ar gyfer set o ddangosyddion perfformiad. | 5(i) Dylai Byrddau Iechyd Lleol geisio cytuno a gosod targedau blaenoriaethau lleol er mwyn lleihau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn y gymuned gyda chymorth WHAIPT. | **Cyfrifoldeb**<br>• BILlau.<br>**Monitro**<br>• WHAISG.<br>**Graddfa Amser**<br>• Rhagfyr 2008. |
| | 5(ii) Fe fydd WHAIPT yn gweithio gyda'r sefydliadau i glustnodi dangosyddion allweddol sy'n gallu dangos gwelliannau mewn rheoli heintiau a/neu ddarparu rhybudd cynnar o risg. | **Cyfrifoldeb**<br>• WHAIPT.<br>**Monitro**<br>• WHAISG.<br>**Graddfa Amser**<br>• Rhagfyr 2008. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Gweler y naratif ym Mhennod 6, tudalen 2.12)** | | |
| AMCAN STRATEGOL: Fe fydd sefydliadau'n datblygu systemau i safonau cenedlaethol a gytunwyd, i sicrhau effeithiolrwydd mewn cofnodi, dadansoddi a mynediad i'w data eu hunain a mynediad i ffynonellau o wybodaeth sy'n briodol i'w hanghenion o ran rheoli heintiau o fewn eu sefydliad. | | |
| Mae cefnogaeth dda i Reoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn hanfodol i weithio effeithlon mewn rheoli heintiau. | 6(i) Fe fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau'n rhoi ystyriaeth i anghenion rheoli heintiau wrth ddatblygu a gweithredu rhaglenni rheoli gwybodaeth a thechnoleg yn y dyfodol. | **Cyfrifoldeb**<br>• Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>• Sefydliadau.<br>**Graddfa Amser**<br>• Adeg cyhoeddi'r strategaeth hon. |
| | 6(ii) Bydd WHAIPT yn archwilio'r posibilrwydd o gyrchu gwybodaeth arolygu yn electronig (gweler 4(iii)). | **Cyfrifoldeb**<br>• WHAIPT.<br>**Monitro**<br>• WHAISG.<br>**Graddfa Amser**<br>• Rhagfyr 2008. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Gweler y naratif ym Mhennod 6, tudalen 2.12)** | | |
| Gweler gwefan WHAIPT http://www.wales.nhs.uk/sites/home.cfm?OrgID=379 | 6(iii) Fe fydd gwefan WHAIPT yn cael ei datblygu fel porthol pwysig ar gyfer cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth, gan gynnwys rhoi diweddariad rheolaidd am ddatblygiadau strategol. | **Cyfrifoldeb**<br>• WHAIPT.<br>**Monitro**<br>• WHAISG.<br>**Graddfa Amser**<br>• Adeg cyhoeddi'r strategaeth hon. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Iechyd Galwedigaethol (Gweler y naratif ym Mhennod 7, tudalen 2.13)** | | |
| AMCAN STRATEGOL: Rhaid i'r holl staff sy'n gweithio o fewn lleoliadau gofal iechyd cymunedol allu cael mynediad at wasanaethau iechyd galwedigaethol priodol. | | |
| Gweler rheoliadau Rheolaeth o Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) (2002) http://ptcl.chem.ox.ac.uk/MSDS/simplecoshh.pdf<br><br>Gweler Canllawiau NICE - Tiwberciwlosis http://www.nice.org.uk/guidance/CG33<br><br>Gweler Canllawiau Cymru Gyfan ar Anafiadau Brechu ar gyfer Gofal Sylfaenol http://www2.nphs.wales.nhs.uk/icds/page.cfm?pid=339 | 7(i) Gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar asesu risg, pob sefydliad i glustnodi a darparu'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol priodol sydd ei angen i ddiwallu anghenion eu staff. | **Cyfrifoldeb**<br>• Sefydliadau.<br>**Monitro**<br>• BILlau<br>• AGGCC.<br>**Graddfa Amser**<br>• Rhagfyr 2008. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Safonau Cenedlaethol (Gweler y naratif ym Mhennod 8, tudalen 2.14)** | | |
| AMCAN STRATEGOL: Fe fydd safonau cenedlaethol sy'n gyfoes ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cael eu mabwysiadu er mwyn sicrhau arferion cyson ac effeithiol mewn atal a rheoli heintiau ledled Cymru. | | |
| Mae'r strategaeth yn cydnabod bod safonau'n newid ac yn datblygu. O ganlyniad, y safonau mewn grym fydd y rhai a gymeradwywyd gan y Bwrdd Cynghori ar Safonau Gofal Iechyd (HCSB) trwy'r Datganiad Safonau. Fe fydd y safonau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Gwasanaeth Gwybodaeth Iechyd Cymru (HOWIS), ar wefan "Gwasanaeth Heintiau a Chlefydau Trosglwyddadwy" y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (Cymru). | 8(i) Fe fydd sefydliadau'n cydymffurfio â safonau presennol rheoli heintiau. Wrth wneud hynny, fe fydd sefydliadau'n ystyried:<br>• Rôl timau clinigol o fewn y fframwaith atebolrwydd<br>• Ymgorffori mesurau canlyniadau o fewn dangosyddion perfformiad perthnasol fel y cânt eu datblygu.<br><br>Dylai Byrddau Iechyd Lleol gydweithio'n agos â sefydliadau er mwyn sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu cyflwyno'n ddidramgwydd. | **Cyfrifoldeb**<br>• Fe fydd WHAISG yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Cynghori ar Safonau Gofal Iechyd (HCSB)<br>• Fe fydd AGIC ac AGGCC yn monitro gweithredu'r safonau hyn.<br><br>**Monitro**<br>• Cyfredol - swyddogaeth Swyddfa Ranbarthol y GIG fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad sefydliadau<br>• Fe fydd AGIC yn monitro BILlau<br>• Fe fydd BILlau yn monitro meddygfeydd cyffredinol a deintyddol |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Safonau Cenedlaethol (Gweler y naratif ym Mhennod 8, tudalen 2.14)** | | |
| Y canllawiau presennol sy'n gweithredu yng Nghymru yw:-<br><br>WHC (2006)041 - Safonau Gofal Iechyd Cymru - Y Camau Nesaf http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=465&id=61708&pid=8970<br><br>Safonau LAGGCC http://www.csiw.wales.gov.uk/index.asp<br><br>Canllawiau GICC ar Reoli Heintiau ar gyfer Cartrefi Gofal http://nww.nphs.wales.nhs.uk/icds/page.cfm?pid=1568<br><br>Canllawiau Adran Iechyd (Lloegr) ar Reoli Heintiau ar gyfer Cartrefi Gofal - PHMEG http://www.dh.gov.uk/assetRoot/04/13/63/84/04136384.pdf<br><br>Rheoliadau Gwastraff Peryglus (2005) http://www.opsi.gov.uk/si/si2005/20050894.htm | 8(ii) Safonau ar gyfer rheoli heintiau i gael eu mabwysiadau gan AGIC ac AGGCC er mwyn cynnwys agweddau sy'n esblygu o'r strategaeth genedlaethol rheoli heintiau a datblygu'r sylfaen dystiolaeth.<br><br>8(iii) Dylai cyrff comisiynu e.e. Byrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol, gyfeirio at y safonau hyn wrth adolygu'r cytundebau y maent yn eu comisiynu. | **Monitro (parhad)**<br><br>• Fe fydd cyrff comisiynu'n monitro cartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, cyfleusterau iechyd meddwl a chyfleusterau anabledd dysgu.<br><br>**Graddfa Amser**<br><br>• Cydymffurfiad â safonau Rheoli Heintiau i gael ei weithredu erbyn Mehefin 2008. |

| FFRAMWAITH CYFLAWNI | GWEITHREDIADAU | CYFRIFOLDEB |
|---|---|---|
| **Safonau Cenedlaethol (Gweler y naratif ym Mhennod 8, tudalen 2.14)** | | |
| MHRA Sterileiddio a Dadlygru Dyfeisiadau Meddygol. http://www.mhra.gov.uk/home/idcplg?IdcService=SS_GET_PAGE&useSecondary=true&ssDocName=CON007438&ssTargetNodeId=575<br><br>Dadlygru Offerynnau Amldro mewn Ymarfer Cyffredinol http://new.wales.gov.uk/topics/health/ocmo/communications/letters/2004/?lang=cy<br><br>Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd GICC : Mân Lawdriniaethau (2006) http://nww2.nphs.wales.nhs.uk/page.cfm?pid=1267<br><br>A12 Rheoli Heintiau mewn Deintyddiaeth http://www.bda.org/advice/docs/A12.pdf | | |

## Llyfryddiaeth

1. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd - Strategaeth ar gyfer Ysbytai yng Nghymru. http://new.wales.gov.uk/topics/health/protection/communicable-disease/healthcare-associated/?lang=en

2. Llywodraeth Cynulliad Cymru. 'Cynllun Oes'. Mai 2005. http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=452&pid=11608

3. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Safonau Glendid Cenedlaethol ar gyfer Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru, 2003. http://new.wales.gov.uk/about/departments/dhss/publications/health_pub_index/guidance/national_standards_cleanliness?lang=cy

4. Cynulliad Cenedlaethol Cymru. 'Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid'. 2001. http://www.planforwales.wales.gov.uk/healthcare_services/index.htm

5. Cynulliad Cenedlaethol Cymru. 'Corporate Governance in the NHS in Wales: Controls Assurance Statements 1999-2000: Risk Management and Organisational Controls'. Cylchlythyr Iechyd Cymru 2000 (13). http://www.inforegister.wales.gov.uk/recdetails.asp?id=13267

6. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Safonau Gofal Iechyd i Gymru. Creu'r Cysylltiadau Cynllun Oes. http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=465&id=61711&pid=8970

7. Llywodraeth Cynulliad Cymru CMO (2004)13 'Decontamination of Re-usable Instruments in General Practice'.

8. Llywodraeth Cynulliad Cymru. 'Wales Framework for Managing Major Infectious Disease Emergencies'. http://new.wales.gov.uk/topics/health/protection/communicable-disease/flu/?lang=cy

9. Cylchlythyr Iechyd Cymru. 2006. 041 'Healthcare Standards for Wales - Next Steps'. http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=465&id=61708&pid=8970

10. Cylchlythyr Iechyd Cymru. 2002 (116) 'Environmental Management Policy for the NHS Estate'. http://howis.wales.nhs.uk/doclib/whc2002-116-e.pdf

11. Yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Derek Wanless, Mehefin 2003. http://www.hsmc.bham.ac.uk/torfaen/Wanless%20Welsh%20Review.pdf

12. Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (NPHS). (http://www.nphs.wales.nhs.uk).

13. Rhaglen Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru. NPHS (WHAIP). http://www.wales.nhs.uk/sites/home.cfm?OrgID=379

14. Pecyn E-ddysgu'r GICC ar Reoli Heintiau. http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=379&pid=24141

15. Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Heintiau. http://www.nric.org.uk/IntegratedCRD.nsf/NRIC_Home1?OpenForm

16. Safonau AGGCC. http://www.csiw.wales.gov.uk/index.asp

17. Canllawiau EPIC (Evidence Based Practice in Infection Control) http://www.epic.tvu.ac.uk/

18. Canllawiau NPHS 'Infection Control Guidelines for Care Homes'. http://nww.nphs.wales.nhs.uk/icds/page.cfm?pid=1568

19. 'Infection Control Guidance for Care Homes'. Yr Adran Iechyd (DoH) http://www.dh.gov.uk/assetRoot/04/13/63/84/04136384.pdf

20. ICNA. 'Audit Tools for monitoring infection control standards within the community setting', 2005. http://www.icna.co.uk/public/downloads/documents/AuditTools2005.pdff

21. NPHS. 'All-Wales Inoculation Injury Guidelines for Primary Care'. http://www2.nphs.wales.nhs.uk/icds/page.cfm?pid=339

22. NPHS. 'Directed Enhanced Service Minor Surgery', Hydref 2006. http://nww2.nphs.wales.nhs.uk/page.cfm?pid=1267

23. WHO. Guidelines on hand hygiene in healthcare (advanced draft): a summary - clean hands are safer hands. http://www.who.int/patientsafety/events/05/HH_en.pdf

24. Gweithrediaeth yr Alban. 'Preventing Infections acquired while receiving healthcare - The Scottish Executive's action plan to reduce their risk to patients, staff and visitors', 2002-2005. http://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/46997/0013946.pdf

25. Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol. 'CG2 Infection Control. Prevention of healthcare-associated infection in primary and community care'. Mehefin 2003. http://www.nice.org.uk/page.aspx?o=CG002NICEguideline

26. ICNA ac RCGP. 'Infection Control Guidance for General Practice'. ICNA, 2003. http://www.icna.co.uk/public/prod_pub/product.asp?pid=24

27. Rheoliadau Gwastraff Peryglus. Gorffennaf 2005 HTM 07-01 'Safe Management of Healthcare Waste', Tachwedd 2006 http://www.rpsgb.org.uk/pdfs/hazwastehospphguid.pdf

28. Rheoliadau Gwastraff Peryglus, 2005. http://www.opsi.gov.uk/si/si2005/20050894.htm

29. Canllawiau Strategaeth Gwastraff Gofal Iechyd Cymru. Tachwedd 2006 http://www.wales.nhs.uk/documents/WHC_2006_043.pdf

30. Ymgyrch 'glanhewcheichdwylo' NPSA
http://www.npsa.nhs.uk/cleanyourhands

31. Yr Adran Iechyd (DoH). 'Essential steps to safe, clean care: introduction and guidance'. http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_064815

32. Reducing Healthcare Associated Infections: Code of practice for prevention and control of healthcare associated infections. http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Legislation/Regulatoryimpactassessment/DH_4139338

33. MHRA. 'Sterilisation and Decontamination of Medical Devices'.
http://www.mhra.gov.uk/home/idcplg?IdcService=SS_GET_PAGE&useSecondary=true&ssDocName=CON007438&ssTargetNodeId=575

34. 'Primary and Social Care Premises Planning and Design Guidance'.

35. 'Infection Control in a Built Environment - NHS Estates'. http://howis.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=301&id=22548&pid=647

36. HTM 2010 Good Practice Guide: Sterilisation - NHS Estates.
http://www.wales.nhs.uk/sites3/docmetadata.cfm?orgid=254&id=66760

37. 'Good Practice Guide: Washer-Disinfectors. Operational Management'.
http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/254/snHTM20300p0113220707.pdf

38. Yr Adran Iechyd (DoH). HSG(95)10 'Hospital Infection Control - guidance on the control of infection in hospitals'. http://www.dh.gov.uk/en/PublicationsAndStatistics/LettersAndCirculars/HealthServiceGuidelines/DH_4017852

39. Yr Adran Iechyd (DoH). HSG (95)18 (wrthi'n cael ei adolygu). http://www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/LettersAndCirculars/HealthServiceGuidelines/HealthServiceGuidelinesArticle/fs/en?CONTENT_ID=4017865&chk=5MeXDx

40. BDA. 'A12 Infection Control in Dentistry'. http://www.bda.org/advice/docs/A12.pdf

41. Rheoliadau COSHH. 'Control of Substances Hazardous to Health'. 2002.
http://ptcl.chem.ox.ac.uk/MSDS/simplecoshh.pdf

42. Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus. 1995.
http://www.opsi.gov.uk/SI/si1995/Uksi_19953163_en_1.htm

43. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. 'Personal Protective Equipment at Work - Guidance on regulations'. http://www.hse.gov.uk/pubns/indg174.pdf

44. 'Skills for Health'. http://www.skillsforhealth.org.uk/

45. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith. 1974. http://www.healthandsafety.co.uk/haswa.htm,

46. Canllawiau NICE - 'Tuberculosis'. http://www.nice.org.uk/guidance/CG33

47. IFH. 'MRSA, Clostridium Difficile and ESBL producing Escherichia coli in the home and community'. http://www.ifh-homehygiene.org/2003/2library/MRSA_expert_report.pdf

48. HSC 2000/020. http://www.dh.gov.uk/PublicationsAndStatistics/LettersAndCirculars/HealthServiceCirculars/HealthServiceCircularsArticle/fs/en?CONTENT_ID=4004553&chk=agI1I2

49. Fframwaith Gwasanaethau Cymunedol, Llywodraeth Cynulliad Cymru http://new.wales.gov.uk/topics/health/publications/health_social_care_strategies/communityservicesframework?lang=en

50. Finn, L and Crook, S. 'Minor surgery in general practice - setting the standards'. Journal of Public Health Medicine, 1998, 20 (2), 169-174.

51. Horton, R., & Parker, L. Informed Infection Control Practice. Churchill Livingstone, 1997

52. Loveday, H.P., Harper, P., Mulhall, A., Pellowe, C., Howard, J., McRae, E. and Pratt, R.J. Informing the future: a review of the roles and responsibilities of community infection control and communicable disease control nurses in England. A report to the Department of Health England. Thames Valley University, 2002.

# Geirfa

| | |
|---|---|
| AGIC | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |
| AGGCC | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| BDA | British Dental Association |
| BILl | Bwrdd Iechyd Lleol |
| BSC | Business Service Centre |
| CCDC | Consultant in Communicable Disease Control |
| COI | Control of Infection |
| COSHH | Control of Substances Hazardous to Health |
| DOH | Adran Iechyd (Lloegr) |
| EPIC | Evidence based Practice in Infection Control |
| GIG | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| GICC | Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol |
| GICCC | Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru |
| HASWA | Health and Safety at Work Act |
| HBN | Health Building Note |
| HCAI | Healthcare Associated Infection |
| HCSB | Healthcare Standards Advisory Board |
| HGGI | Heintiau sy’n Gysylltiedig â Gofal Iechyd |
| HOWIS | Health of Wales Information Service |
| HSE | Health & Safety Executive |
| HSG | Health Service Guidelines |
| ICNA | Infection Control Nurses Association |
| ICP | Infection Control Practice |
| IM&T | Information Management & Technology |
| MAC | Medical Advisory Committee |
| MHRA | Medicines & Healthcare products Regulatory Agency |
| MRSA | Methicillin Resistant Staphylococcus Aureus |
| NICE | National Institute for Clinical Excellence |

| | |
|---|---|
| NOS | National Occupational Standards |
| NPHS | National Public Health Service |
| NPSA | National Patient Safety Agency |
| NRIC | National Resource for Infection Control |
| PPE | Personal Protective Equipment |
| RCGP | Royal College of General Practitioners |
| RCN | Royal College of Nursing |
| SICP's | Standard Infection Control Precautions |
| WHAIP | Rhaglen Heintiau sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru |
| WHAISG | Is-Grŵp Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru |
| WHO | World Health Organisation |

## Aelodaeth Grŵp y Strategaeth Gymunedol

Cadeirydd - Dr Philip Mannion - Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol

John King - Atebion Iechyd Cymru

John Bowles - Cronfa Risg Cymru

Dr Eleri Davies - Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol

Helen Perry - Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent

Tracey Nicholls - Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen

Dr Kay Saunders - Cyngor Meddygon Teulu Cymru

Dawn Hill - Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol

Julia Styles - Bwrdd Iechyd Lleol Blaenau Gwent

Dr Chris Wills-Wood - Pwyllgor Ymarfer Deintyddol Cyffredinol Cymru

Dr Marion Lyons - Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol

Carol Roberts - Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol

Ronnie Alexander - Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mandy Collins - Arolygiaeth Iechyd Cymru

Andrea Hughes - Swyddfa Ranbarthol y GIG

Ann Ferris - Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Tracey Gauci - Llywodraeth Cynulliad Cymru

Dr Mike Simmons - Llywodraeth Cynulliad Cymru

Stephen Thomas - Llywodraeth Cynulliad Cymru

Natalie Price - Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ysgrifenyddiaeth - Eleanor Long - Llywodraeth Cynulliad Cymru

# BILlau - Archwiliad o Weithgareddau Rheoli Heintiau - 2006

Yn ystod 2006 archwiliwyd y 22 BILl er mwyn darganfod pa weithgareddau rheoli heintiau yr oeddent yn eu gweithredu. Cafwyd y canlyniadau canlynol:

| Cwestiwn | Oes | Nac oes | Dim Ateb |
|---|---|---|---|
| A oes gennych swyddog ar lefel bwrdd gyda chyfrifoldeb dros Reoli Heintiau? | 11 | 5 | 6 |
| A oes gennych arweinydd enwebedig dros Reoli Heintiau? | 11 | 5 | 6 |
| A oes gan y BILl Nyrs Rheoli Heintiau fel rhan o'r Gwasanaethau Rheoli Heintiau? | 7, fodd bynnag mae 4 o'r rhain yn cael eu cyflogi gan y GICC | 9 | 6 |
| A oes adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu gennych ar unrhyw agwedd o Reoli Heintiau? | 2, gyda 2 pellach yn cynllunio adroddiad blynyddol | 12 | 6 |
| A oes cyllideb ganfyddadwy ar gyfer Rheoli Heintiau? | 1 | 15 | 6 |
| A oes unrhyw adrodd rheolaidd i'r bwrdd ar Reoli Heintiau? | 2, 4 BILl yn adrodd trwy lywodraethu clinigol a 3 yn adrodd am achosion penodol yn unig | 7 | 6 |
| A oes hyfforddiant mewn Rheoli Heintiau'n cael ei ddarparu gennych ar gyfer staff wrth gychwyn yn eu swydd ac fel diweddariadau rheolaidd? | 14 | 2 | 6 |
| A oes trefn o reoli heintiau'n cael ei gynnwys yn rhaglen archwilio neu lywodraethu clinigol y BILl? | 9<br>4 - Rhan o broses y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd | 3 | 6 |

| Cwestiwn | Oes | Nac oes | Dim Ateb |
|---|---|---|---|
| Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a oes unrhyw adroddiadau wedi cael eu cynhyrchu sydd wedi arwain at newid mewn arferion Rheoli Heintiau? (oes/nac oes) Os oes, rhoddwch grynodeb byr os gwelwch yn dda. | 10, mae'r adroddiadau hyn wedi bod o ganlyniad i archwiliadau'n bennaf | 6 | 6 |
| A oes modd ichi allu darparu unrhyw enghreifftiau o arferion da mewn atal HGGI sydd wedi cael eu datblygu/ cyflwyno yn ystod y flwyddyn ddiwethaf? | 11, e.e. symudiadau at offerynnau untro | 5 | 6 |

# Atal a Rheoli Heintiau mewn Lleoliadau Cymunedol

## Canllawiau a Rhestr Wirio

### Diben y Canllawiau

Dangos cydrannau'r math o system gynaliadwy sydd ei hangen er mwyn sicrhau nad yw diogelwch cleifion neu gleientiaid mewn lleoliad cymunedol yn cael ei beryglu gan weithdrefnau gwael mewn atal a rheoli heintiau.

### Sail resymegol a Risg

Mae'r risgiau i gleifion o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd wedi derbyn cryn lawer o gyhoeddusrwydd dros y blynyddoedd diwethaf, a chydnabyddir fod yna gamau syml a rhai mwy cymhleth y gellir eu cymryd a fydd yn lleihau'r cyfle i heintiau o'r fath ddatblygu a chael eu trosglwyddo rhwng cleifion; a rhwng clinigwyr a chleifion.

Nid mater o synnwyr cyffredin yn unig yw ceisio lleihau'r risg o drosglwyddo heintiau - mae hefyd yn ofyniad statudol. Mae gan glinigwyr ac eraill ddyletswydd i asesu'r risg o heintiad i gleifion a staff ac i gymryd camau i gyfyngu ar y risg hwnnw o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 a Rheoliad Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) 1999.

Mae'r cyfrifoldeb i roi systemau ar waith i leihau risg, yn sicr a diamwys ar ysgwyddau ymarferwyr a darparwyr gofal, am eu gweithrediadau eu hunain a'r rhai a ddirprwyir i'w staff. Yn y cyd-destun hwn, mae ymarferwyr a darparwyr gofal iechyd yn cynnwys yr holl ddarparwyr gofal sylfaenol e.e. practisau meddygon teulu a deintyddion, offthalmolegwyr, ciropodyddion etc, cartrefi nyrsio a gofal preswyl ac unrhyw ddarpariaeth gofal iechyd preifat neu wirfoddol arall. Rhaid i'r ddyletswydd i gefnogi a hwyluso mesurau rhagofalus gan ymarferwyr a darparwyr gofal gael ei rhannu hefyd gyda Byrddau Iechyd Lleol, y Ganolfan Gwasanaethau i Fusnesau (BSC) ac unrhyw gyrff comisiynu eraill.

Fe fydd y canllawiau hyn, felly, yn rhoi arweiniad i Fyrddau Iechyd Lleol, y Ganolfan Gwasanaethau i Fusnesau a chyrff comisiynu eraill ar eu dyletswyddau tra ar yr un pryd yn amlinellu systemau a fydd yn galluogi ymarferwyr a darparwyr gofal i gydweithio â BILlau, y Ganolfan Gwasanaethau i Fusnesau a chyrff comisiynu eraill i leihau'r risgiau o draws-heintiad, a chydymffurfio â gofynion statudol beth bynnag fo natur eu perthynas gytundebol.

| Maes Gwirio: 1 | ATEBOLRWYDD<br><br>O fewn y BILl mae'r atebolrwydd cyffredinol dros faterion atal a rheoli heintiau, yn y BILl a'i gytundebwyr, wedi ei ddirprwyo i aelod o'r Bwrdd Gweithredol. |
|---|---|

*Canllawiau:*

Er bod y Prif Weithredwr yn cadw cyfrifoldeb terfynol dros reoli'r holl risgiau, dylai aelod Gweithredol o'r Bwrdd, at ddibenion ymarferol, gydgysylltu'r gweithgareddau atal a rheoli heintiau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw rai o weithgareddau clinigol y Bwrdd, neu â chefnogi gweithgareddau tebyg, a fydd yn galluogi meddygfeydd gofal sylfaenol a deintyddol, cartrefi nyrsio a gofal preswyl i gydymffurfio â'u hymrwymiadau cytundebol a statudol.

Er bod gan bob clinigydd, meddygfa a darparwr gofal annibynnol ddyletswydd i leihau'r risg o heintiad i gleifion a chydweithwyr, gall contractio am gyngor rheoli heintiau ac am wasanaethau dadlygru fod yn anodd iddynt. Mae cydgysylltu gweithgareddau o'r fath yn ganolog gan y BILl yn gwneud synnwyr a gall hefyd ddarparu rhywfaint o sicrwydd fod meddygfeydd yn cydymffurfio â'u hymrwymiadau cytundebol i reoli heintiau.

Dylai'r Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol sicrhau fod trefniadau yn eu lle ar gyfer:

- Datblygu strategaeth gyffredinol gyda'r holl randdeiliaid i gefnogi cyflawni atal a rheoli effeithiol ar heintiau a systemau dadlygru trwy'r holl leoliadau gofal iechyd cymunedol.
- Hwyluso darparu ffynhonnell/ffynonellau canolog o gyngor a hyfforddiant mewn rheoli heintiau.
- Hwyluso darparu gwasanaethau dadlygru archwiliadwy.
- Cytuno ar brosesau monitro ac archwilio gyda meddygfeydd ac eraill o dan eu gofal e.e. cartefi gofal.
- Enwi ymarferydd arweiniol i bob sefydliad a fydd yn gweithredu fel y canolbwynt cyswllt ar faterion rheoli heintiau.
- Darparu Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol i'r safon sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer holl staff gofal iechyd cymunedol.

| *Gwiriwch fod:* | |
|---|---|
| 1.1 | Cyfarwyddwr Gweithredol wedi cael ei enwebu i gydgysylltu gweithgareddau cefnogi atal a rheoli heintiau o fewn ardal y BILl.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Cofnod Bwrdd |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |
| 1.2 | Strwythur yn bod, sy'n amlinellu cyfrifoldebau aelodau o staff y BILl dros faterion rheoli heintiau.<br><br>Enghreifftiau o dystiolaeth:<br>➢ Strwythur trefniadol<br>➢ Disgrifiad swydd<br>➢ Siart atebolrwydd |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |
| 1.3 | Amlinelliad yn swydd-ddisgrifiadau aelodau allweddol o staff o sut y byddant yn darparu'r gefnogaeth ac yn hwyluso datblygu arferion da mewn rheoli heintiau a ddynodir o dan y "Canllawiau" uchod.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Swydd-ddisgrifiad |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |
| 1.4 | Arweinwyr wedi cael eu henwi ar gyfer yr holl bractisau meddygon teulu a darparwyr gofal.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Rhestr o fanylion cyswllt |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |

| | |
|---|---|
| 1.5 | Canllawiau ar rôl arweinydd Rheoli Heintiau mewn meddygfeydd a darparwyr gofal iechyd preifat eraill wedi cael eu datblygu a'u darparu i bob pennaeth ac arweinydd.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Amlinelliad yn disgrifio'r rôl |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br><br>Sylwadau: | |
| 1.6 | Polisi a gweithdrefn yn pennu'r system ymgynghori, cyfathrebu a chysylltu rhwng y BILl, ei gontractwyr a darparwyr gofal iechyd eraill ar faterion rheoli heintiau wedi cael eu datblygu a'u cylchredeg.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Gweithdrefn gyfathrebu ar faterion Rheoli Heintiau gan gynnwys rhybuddion |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br><br>Sylwadau: | |

| Maes Gwirio: 2 | ATEBOLRWYDD<br><br>Grŵp ymgynghorol i gynrychioli rhanddeiliaid lleol yn cael ei ymgynnull i drafod materion rheoli heintiau, dadlygru a gwaredu gwastraff. |
|---|---|

*Canllawiau:*

Fe fydd cynnwys cynrychiolwyr o bractisau gofal sylfaenol a darparwyr gofal eraill lleol yn y gwaith o wneud penderfyniadau'n ymwneud â gweithgareddau rheoli heintiau'n helpu sicrhau bod y rheini'n cael eu derbyn a'u gweithredu. Nid oes rhaid i'r grŵp sydd â materion o'r fath o fewn ei gylch gorchwyl fod yn cael ei ffurfio'n unswydd i'r diben hwnnw; fe all fod yn grŵp a ffurfiwyd eisoes gyda rheoli heintiau'n gallu cael ei ychwanegu fel eitem barhaol ar ei agenda. Yr unig amod yw y dylai ymgynghorydd priodol fod ar gael ar gyfer y cyfarfod neu o leiaf y rhan berthnasol ohono; byddai ymgynghorwyr priodol yn cynnwys Ymgynghorydd mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy neu Nyrsys Cymunedol Rheoli Heintiau.

*Gwiriwch fod:*

| | |
|---|---|
| 2.1 | Gan grŵp sy'n cynrychioli rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys meddygfeydd gofal sylfaenol a deintyddol a darparwyr gofal eraill e.e. cartrefi nyrsio, reoli heintiau o fewn ei gylch gorchwyl.<br><br>Enghreifftiau o dystiolaeth:<br>➢ Cylch gorchwyl<br>➢ Rhestr o aelodau |

Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐

Sylwadau:

| | |
|---|---|
| 2.2 | Gan y grŵp ran mewn gwneud penderfyniadau ar faterion rheoli heintiau, dadlygru a gwaredu gwastraff yn eu cymuned leol.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Cofnodion cyfarfodydd |

Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐

Sylwadau:

| Maes Gwirio: 3 | ATEBOLRWYDD mewn Byrddau Iechyd Lleol (Gweler hefyd Safon G: AFA 5.3)<br><br>Strategaeth wedi cael ei datblygu i gefnogi a hwyluso arfer da mewn rheoli heintiau, dadlygru archwiliadwy, gwaredu gwastraff a phrosesau golchi. |
|---|---|

*Canllawiau:*

Gall caffael cyngor a hyfforddiant rheoli heintiau, dadlygru archwiliadwy, gwaredu gwastraff a chyfleusterau golchi fod yn anodd i ymarferwyr unigol, meddygfeydd a darparwyr gofal eraill. Byddai darparu gwasanaethau o'r fath yn cael ei hwyluso'n rhwyddach ac yn fwy cost-effeithiol wrth gael ei drefnu ar sail grŵp gan y BILl. Dylai'r strategaeth i alluogi'r ddarpariaeth hon fod yn seiliedig ar yr anghenion a glustnodwyd gan y grŵp o gynrychiolwyr lleol ac ar y cyngor a ddarparwyd yn lleol ac yn ganolog. Fe fydd angen datblygu cynllun gweithredu i roi'r strategaeth hon ar waith.

*Gwiriwch fod:*

| | |
|---|---|
| 3.1 | Strategaeth a chynllun gweithredu dilynol wedi cael eu datblygu i ddarparu cyngor rheoli heintiau a gwasanaeth seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol ac anghenion lleol.<br><br>Enghreifftiau o dystiolaeth:<br>➢ Dogfen Strategaeth<br>➢ Cynllun Gweithredu |

Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐

Sylwadau:

| | |
|---|---|
| 3.2 | Strategaeth a chynllun gweithredu wedi cael eu datblygu i hwyluso prynu gwasanaethau dadlygru a gwaredu gwastraff ar y cyd i ymarferwyr a darparwyr gofal, neu i roi cyngor ar ddewisiadau eraill lle na bo hyn yn ymarferol.<br><br>Enghreifftiau o dystiolaeth:<br>➢ Dogfen Strategaeth<br>➢ Cynllun Gweithredu |

Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐

Sylwadau:

| | |
|---|---|
| 3.3 | Strategaeth a chynllun gweithredu wedi cael eu datblygu i brynu gwasanaethau golchi ar y cyd i feddygfeydd a darparwyr gofal, neu i roi cyngor ar ddewis arall lle na bo hyn yn ymarferol.<br><br>Enghreifftiau o dystiolaeth:<br>➢ Dogfen Strategaeth<br>➢ Cynllun Gweithredu |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |

| Maes Gwirio: 4 | ATEBOLRWYDD: (o fewn meddygfeydd a darparwyr gofal eraill)<br><br>Fe fydd y perchennog/uwch reolwr neu bartner yn cadw atebolrwydd cyffredinol dros reoli heintiau o fewn eu sefydliad hyd yn oed lle byddant yn enwebu aelod o staff fel arweinydd rheoli heintiau. |
|---|---|

*Canllawiau:*

Dylent sicrhau bod cynllun syml yn cael ei ddatblygu i leihau'r risg o drosglwyddo heintiau. Dylai'r cynllun amlinellu'r systemau, prosesau a gweithdrefnau y bwriedir i aelodau staff eu gweithredu a'u dilyn. Gallai enghreifftiau o'r hyn sydd ynddo gynnwys:

- Arferion safonol rheoli heintiau, gan gynnwys
- Trefniadau gwaredu gwastraff
- Trefniadau ar gyfer dadlygru offerynnau
- Trefniadau golchi
- Meini prawf neu amodau sy'n dangos pa bryd y dylid ceisio cyngor allanol
- Cynlluniau wrth gefn ar gyfer achos o heintiad
    - Yn y sefydliad
    - Yn y gymuned
- Dyletswyddau'r arweinydd rheoli heintiau
- Trefniadau/gofynion hyfforddi ar gyfer staff.

| *Gwiriwch fod:* | |
|---|---|
| 4.1 | Datganiad o ddyletswyddau'r arweinydd atal a rheoli heintiau.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Swydd-ddisgrifiad |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |
| 4.2 | Trefniadau yn eu lle ar gyfer arferion a rhagofalon o ddydd i ddydd er mwyn rheoli heintiau.<br><br>Enghreifftiau o dystiolaeth:<br>➢ Polisi rhagofalon safonol rheoli heintiau gan gynnwys hylendid dwylo<br>➢ Polisi a threfniadau gwaredu gwastraff<br>➢ Polisi a threfniadau golchi<br>➢ Gweithdrefn, cyngor a threfniadau ar gyfer ceisio cyngor allanol<br>➢ Polisi a threfniadau ar gyfer golchi a dadlygru offerynnau ac offer eraill<br>➢ Disgrifiad clir o'r meini prawf ar gyfer pryd a sut y dylid ceisio cyngor allanol |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |
| 4.3 | Cynllun/strategaeth gweithredu syml wedi cael ei baratoi i sicrhau gweithredu a monitro'r arferion o ddydd i ddydd.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Cynllun gweithredu |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |

<table>
<tr><td>4.4</td><td>Cynlluniau wrth gefn ar gael (fel bo’n briodol i’r sefydliad):<br><br>Enghreifftiau o dystiolaeth:<br>➢ Cynllun wrth gefn ar gyfer achos o haint o fewn y sefydliad<br>➢ Cynllun wrth gefn ar gyfer achos yn y gymuned</td></tr>
<tr><td colspan="2">Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau:</td></tr>
</table>

| Maes Gwirio: 5 | GALLU<br><br>Caiff ymarferwyr, arweinwyr rheoli heintiau a staff eraill eu hyfforddi a gallant ddangos eu gwybodaeth a/neu gymhwysedd i lefel sy'n briodol i'w rôl. |
|---|---|

*Canllawiau:*

Mae gan unrhyw sefydliad, sy'n cyflogi staff, ddyletswydd o dan nifer o ddeddfau a rheoliadau i sicrhau bod eu staff yn gymwys i weithredu eu rôl. Lle bo organebau heintus yn y cwestiwn, mae'r ddyletswydd i sicrhau bod staff yn gymwys i fynd i'r afael â'r risg iddynt hwy eu hunain, cydweithwyr a defnyddwyr eu gwasanaethau yn ymwneud yn bennaf â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 (HASWA) a'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 1999 (COSHH).

Mae hyfforddi staff yn debyg o fod yn gyfuniad o'r damcaniaethol a'r ymarferol a bydd yn amrywio mewn dyfnder a chynnwys yn ôl lefel y cymhwysedd sy'n ofynnol er mwyn iddynt gyflawni eu swyddogaeth. Yr arweinydd Rheoli Heintiau a fydd yn debyg o fod angen yr hyfforddiant mwyaf cynhwysfawr yn enwedig os bydd gofyn iddo ef neu hi raeadru hyfforddiant.

*Gwiriwch fod:*

| | |
|---|---|
| 5.1 | Dadansoddiad o anghenion hyfforddiant i staff wedi cael ei baratoi a hwnnw'n cynnwys hyfforddiant i lefel briodol ym mater Rheoli Heintiau.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Dadansoddiad anghenion hyfforddiant |

Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐

Sylwadau:

| | |
|---|---|
| 5.2 | Ffynonellau priodol o hyfforddiant wedi cael eu hadnabod.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Cynllun hyfforddi |

Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐

Sylwadau:

| 5.3 | Cofnod o hyfforddiant a chymhwysedd yn cael ei gynnal.<br><br>Enghreifftiau o dystiolaeth:<br>➢ Cofnodion hyfforddiant<br>➢ Cofnodion o wiriadau cymhwysedd |
|---|---|
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br><br>Sylwadau: | |

| Maes Gwirio: 6 | PROSESAU<br><br>Caiff rheoli heintiau ei ystyried fel rhan o weithgaredd datblygu'r gwasanaeth cyfan. |
|---|---|

*Canllawiau:*

Dylai system fod yn ei lle i sicrhau bod meddygfeydd a darparwyr gofal eraill yn cael cyngor ar reoli heintiau ac ar faterion iechyd galwedigaethol cyn:

- Codi adeiladau gofal iechyd newydd neu ehangu'r rhai sy'n bod eisoes
- Prynu dyfeisiadau neu offer meddygol (gan gynnwys eitemau megis cadeiriau archwilio, gwelyau neu offer codi)
- Darparu gwasanaethau newydd, yn enwedig os ydynt yn ymwneud â gweithdrefnau ymyrrol.

*Gwiriwch fod:*

| | |
|---|---|
| 6.1 | Tystiolaeth fod canllawiau ysgrifenedig ar gyfer meddygfeydd a darparwyr gofal eraill yn datgan sut, pryd ac oddi wrth bwy y dylid ceisio cyngor cyn unrhyw waith adeiladu sylweddol/newid defnydd.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Canllawiau |

Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐

Sylwadau:

| | |
|---|---|
| 6.2 | Gan y BILl bolisi sy'n ei orchymyn i asesu risg neu gaffael asesiadau o risg trosglwyddo heintiau cyn comisiynu gwasanaethau newydd oddi wrth ei gontractwyr, yn enwedig lle bwriedir gweithdrefnau ymyrrol neu offer y bydd angen ei ddadlygru.<br><br>Enghreifftiau o dystiolaeth:<br>➢ Polisi<br>➢ Asesu risg |

Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐

Sylwadau:

| | |
|---|---|
| 6.3 | Canllawiau ysgrifenedig ar gyfer meddygfeydd a darparwyr gofal eraill ar sut y gellir caffael cyngor cyn prynu neu dreialu dyfeisiadau neu offer meddygol.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Canllawiau |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |
| 6.4 | Canllawiau ysgrifenedig ar gael ar gyfer meddygfeydd ar arfer gorau mewn gwaredu gwastraff clinigol.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Canllawiau |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |

<table>
<tr><td>Maes gwirio: 7</td><td>MONITRO AC ADOLYGU<br><br>Dylai'r BILl gynhyrchu adroddiad cynhwysfawr ar weithgaredd rheoli heintiau, dylai gael ei adolygu a'i grynhoi gan y Pwyllgor Rheoli Risg a chynnydd yn cael ei adrodd i'r Bwrdd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Canllawiau:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ystyrid fod gan y BILl ddyletswydd i gael sicrwydd fod ei staff ei hun a'r holl feddygfeydd a darparwyr gofal eraill (gweler y diffiniad o dan Sail Resymegol a Risg) yn defnyddio'r arferion gorau y gellir eu cyrraedd er mwyn lleihau'r risg o draws-heintiad i'w cleifion neu staff.<br><br>Y drefn orau fyddai i'r adroddiad gael ei gydgysylltu gan yr arweinydd rheoli heintiau o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol, ond ei fod yn seiliedig ar hunanasesu gan y feddygfa neu ddarparwr gofal, perfformiad yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol ac unrhyw ffyrdd eraill o fesur perfformiad rheoli risg gan gynnwys adroddiadau meintiol ac ansoddol ar ddigwyddiadau.<br><br>Dylai'r adroddiad gael ei gyflwyno i'r grŵp cyswllt rheoli heintiau lleol, i Bwyllgor Rheoli Risgiau'r BILl a digon o bwyntiau amlwg yn cael eu crynhoi i ddarparu arwyddion o berfformiad i'r Bwrdd; gallai hyn fod yn ddangosydd perfformiad allweddol perthnasol.<br><br>Fe fydd dangosyddion perfformiad allweddol yn newid dros amser wrth i weithgaredd rheoli heintiau aeddfedu, ond dylent gynnwys i ddechrau:<br><br>• Perfformiad yn erbyn y canllawiau hyn<br>• Y canran o feddygfeydd sydd wedi enwi arweinydd rheoli heintiau (AFA 1)<br>• Sefydlu grŵp lleol i gynrychioli practisau a darparwyr gofal lleol (AFA 2)<br>• Ffynhonnell (ffynonellau) o gyngor a glustnodwyd<br>• Lefelau o hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol a/neu mewn meddygfeydd unigol<br>• Polisïau a chanllawiau a ddatblygwyd<br><br>Dylid datblygu proses archwilio gan y BILl i gefnogi'r broses hunan-asesu.</td></tr>
</table>

| *Gwiriwch fod:* | |
|---|---|
| 7.1 | Adroddiad wedi cael ei lunio.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Adroddiad |
| Oes ☐ Nac oes ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |
| 7.2 | Yr adroddiad yn cynrychioli'r holl bractisau a'r darparwyr gofal eraill o fewn y BILl.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Adroddiad |
| Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |
| 7.3 | Yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r:<br>• BILl<br>• Pwyllgor Rheoli Risg<br>• Swyddfa Ranbarthol; a'i<br>• Grynhoi i'r Bwrdd<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Cofnodion |
| Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Rhannol ☐<br>Sylwadau: | |

| | |
|---|---|
| 7.4 | Y dangosyddion perfformiad allweddol a ddangosir yn y canllawiau uchod wedi cael eu mesur a bod y canlyniadau'n ffurfio rhan o'r adroddiad hwn.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Adroddiad |
| Ydynt ☐ Nac ydynt ☐ Rhannol ☐<br><br>Sylwadau: | |
| 7.5 | Yr adroddiad yn adolygu digwyddiadau niweidiol lle'r oedd methiant i reoli heintiad yn ffactor achosol/cyfrannol a'r hyn a wnaed i rwystro hyn rhag digwydd eto.<br><br>Enghraifft o dystiolaeth:<br>➢ Adroddiad |
| Ydyw ☐ Nac ydyw ☐ Rhannol ☐<br><br>Sylwadau: | |

## Gallwch gael rhagor o gopïau oddi wrth:

Is-adran Diogelu Iechyd 2
Yr Adran Diogelu Iechyd a’r Proffesiynau Iechyd
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Neu ar wefan Prif Swyddog Meddygol Cymru:
www.cymru.gov.uk/cmo